



Diogelu plant a phobl ifanc

Cyfrifoldebau pob meddyg

Gweithio gyda meddygon Gweithio dros gleifion

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol

Dyletswyddau meddyg sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol

Rhaid bod modd i gleifion ymddiried eu bywydau a'u hiechyd gyda meddygon. Er mwyn cyfiawnhau'r ymddiriedaeth honno, rhaid i chi ddangos parch tuag at fywyd dynol a sicrhau bod eich arfer yn bodloni'r safonau a ddisgwyilir gennych mewn pedwar maes.

Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad

- Sicrhau eich bod yn rhoi'r pwys mwyaf ar ofal eich claf.
- Darparu gofal a gwaith meddyg o safon da.
 - Sicrhau eich bod yn diweddarau eich sgiliau a'ch gwybodaeth broffesiynol.
 - Cydnabod a gweithio o fewn terfynau eich cymhwysedd.

Diogelwch ac ansawdd

- Gweithredu yn ddi-oed os oes gennych reswm da dros gredu y gallech chi neu gydweithiwr fod yn rhoi cleifion mewn perygl.
- Diogelu a hyrwyddo iechyd cleifion a'r cyhoedd.

Cyfathrebu, partneriaeth a gwaith tîm

- Trin cleifion fel unigolion a pharchu eu hurddas.
 - Trin cleifion mewn ffordd gwrtais ac ystyrlon.
 - Parchu hawl cleifion i gyfrinachedd.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda chleifion.
 - Gwrando ar gleifion ac ymateb i'w pryderon a'u dewisiadau.
 - Rhoi'r wybodaeth y maent yn ei dymuno neu'r wybodaeth y mae angen iddynt ei chael i gleifion, mewn ffordd y gallant ei deall.
 - Parchu hawl cleifion i wneud penderfyniadau am eu triniaeth a'u gofal gyda chi.
 - Cynorthwyo cleifion i ofalu am eu hunain er mwyn gwella a chynnal eu hiechyd.
- Gweithio gyda chydweithwyr mewn ffyrdd sy'n diwallu buddiannau cleifion orau.

Cynnal ymddiriedaeth

- Bod yn onest a gweithredu mewn ffordd ddi-dwyll.
- Ni ddylech fyth wahaniaethu yn erbyn cleifion neu gydweithwyr mewn ffordd annheg.
- Ni ddylech fyth gymryd mantais ar ffydd eich cleifion ynndoch neu ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn.

Rydych yn atebol yn bersonol am eich gwaith proffesiynol fel meddyg ac mae'n rhaid i chi fod yn barod i gyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd bob amser.

Diogelu plant a phobl ifanc: cyfrifoldebau pob meddyg

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2012.

Bydd yn dod i rym ar 3 Medi 2012.

Mae modd i chi weld y fersiwn diweddaraf o'r arweiniad hwn ar ein gwefan, sef www.gmc-uk.org/guidance.

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i gael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Nod yr arweiniad hwn yw helpu meddygon i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel, ac i gynorthwyo meddygon mewn maes a fydd yn faes gwaith anodd bob amser.

Cynnwys

	Paragraff(au)	Tudalen
Am yr arweiniad hwn		06
Egwyddorion diogelu plant a phobl ifanc	1	09
Adnabod plant a phobl ifanc y maent mewn perygl o ddioddef neu y maent yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod	2–12	11
Pwyntiau allweddol		11
Rolau pob meddyg	2–5	11
Rolau meddygon sy'n gweithio gyda phlant neu bobl ifanc	6–12	13
Cyfathrebu a chymorth	13–22	15
Pwyntiau allweddol		15
Bodloni anghenion cyfathrebu	13–14	15
Cyfathrebu gyda phlant a phobl ifanc	15–17	16
Cyfathrebu gyda rhieni	18–22	17
Gweithio mewn partneriaeth	23–27	19
Pwyntiau allweddol		19
Cydweithio gydag eraill a chyfathrebu mewn ffordd effeithiol	23–25	19
Cymryd rhan mewn gweithdrefnau amddiffyn plant	26–27	20
Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth	28–51	21
Pwyntiau allweddol		21
Egwyddorion cyfrinachedd	28–31	21
Rhannu gwybodaeth pan fyddwch yn pryderu bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl o ddioddef neu yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod	32–35	23

	Paragraff(au)	Tudalen
Rhannu gwybodaeth heb ganiatâd	36–38	25
Oedi cyn rhannu gwybodaeth	39–41	26
Ymateb i'ch pryderon	42	27
Mân bryderon y gallent fod yn rhan o ddarlun ehangach	43–45	27
Ymateb i geisiadau am wybodaeth	46–50	28
Rhannu gwybodaeth yn y tîm gofal iechyd neu gydag eraill sy'n darparu gofal	51	30
Cadw cofnodion	52–60	31
Pwyntiau allweddol		31
Yr hyn y dylech ei gofnodi	52–57	31
Storio cofnodion a mynediad at gofnodion	58–60	33
Archwiliadau amddiffyn plant	61–70	35
Pwyntiau allweddol		35
Cynnal archwiliad amddiffyn plant	61–62	35
Gofyn am ganiatâd	63–67	36
Pan na fydd caniatâd yn cael ei roi	68–70	38
Hyfforddiant a datblygu	71–75	39
Pwyntiau allweddol		39
Cynnal eich gwybodaeth a'ch sgiliau	71–73	39
Dysgu wrth eraill	74–75	40
Meddygon yn rhoi tystiolaeth mewn llys	76–96	41
Pwyntiau allweddol		41
Dyletswyddau pob tyst	76–80	41

	Paragraff(au)	Tudalen
Rhoi tystiolaeth fel tyst ffeithiol (tyst proffesiynol)	81–82	42
Rhoi tystiolaeth fel tyst arbenigol	83–89	43
Nodiadau a chofnodion	90	45
Bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf	91–92	45
Diogelwch gwybodaeth	93–95	45
Gwrthdaro rhwng buddiannau	96	46
Atodiad 1 – Asesu galluedd plentyn neu berson ifanc	1–3	47
Atodiad 2 – Asesu budd pennaf	1–2	49
Diffiniadau o blant, pobl ifanc a rhieni		50
Pwy yw plant a phobl ifanc?		50
Rhieni a chyfrifoldeb rhiant		51
Ffynonellau gwybodaeth ac arweiniad eraill		53
Cyfraith, arweiniad ac adolygiadau cenedlaethol		53
Pecynnau cymorth a deunydd darllen		54
Hyfforddiant		55
Rhoi tystiolaeth mewn llys		56
Gwybodaeth ddefnyddiol sydd ar gael ar-lein		56
Ffynonellau cyngor a chymorth annibynnol ar gyfer rhieni a theuluoedd		57
Cyfeiriadau		59

Am yr arweiniad hwn

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc* yr hawl i gael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae *Arfer meddygol da*¹ yn rhoi dyletswydd ar bob meddyg i ddiogelu a hyrwyddo iechyd a lles plant a phobl ifanc. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob meddyg ymateb i unrhyw bryderon sydd ganddynt am ddiogelwch neu les plentyn neu berson ifanc.

Mae amddiffyn plant yn faes gwaith anodd, ac mae'n gallu golygu y bydd angen gwneud penderfyniadau sy'n heriol ar lefel emosiynol, penderfyniadau sy'n cael eu cymhlethu gan ansicrwydd a phenderfyniadau y maent yn mynd yn groes i ddymuniadau rhieni weithiau.[†] Dylai meddygon weithio gyda rhieni a theuluoedd pan fo modd er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y gofal a'r cymorth y maent ei angen. Ond mewn achosion pan allai buddiannau a dymuniadau rhieni roi diogelwch y plentyn neu'r person ifanc mewn perygl, rhaid i feddygon roi buddiannau'r plentyn neu'r person ifanc yn gyntaf.[‡] Mae diffyg gweithredu pan fydd plentyn neu berson ifanc mewn perygl yn gallu arwain at ganlyniadau difrifol ar gyfer y plentyn a'u teulu.

* Mae'r arweiniad hwn yn ymwneud gyda phlant a phobl ifanc o'u genedigaeth nes iddynt gael eu pen-blwydd yn 18 oed (gweler y diffiniadau o blant, pobl ifanc a rhieni ar dudalennau 50-52 yr arweiniad hwn).

† Mae cyfeiriadau at 'rieni' yn yr arweiniad hwn yn cynnwys pobl y maent yn gofalu am neu'n edrych ar ôl plant neu bobl ifanc. Gallai hyn gynnwys gofalgwyr, aelodau teuluol eraill neu oedolion y maent yn byw ar yr un aelwyd (gweler y diffiniadau o 'blant', 'pobl ifanc' a 'rhieni' ar dudalennau 50-52 yr arweiniad hwn).

‡ Gweler JD v East Berkshire Community Health Trust & Ors [2005] UKHL 23 (21 Ebrill 2005), ar gael trwy droi at www.bailii.org/uk/cases/UKHL/2005/23.html.

'85. Mae budd pennaf plentyn a'i riant yn mynd law yn llaw fel arfer. Ond wrth ystyried adegau pan na fydd rhywbeth yn teimlo'n "hollol iawn", rhaid bod modd i feddyg weithredu mewn ffordd benderfynol er budd y plentyn. Ni ddylai fod yn ymwybodol o'r ffaith, yng nghefn ei feddwl, y gallai fod yn destun honiadau gan riant gofidus os darganfyddir bod ei amheuon ynghylch anaf bwriadol neu gamdriniaeth rhywiol yn ddi-sail.

87. Nid yw hyn yn golygu y dylid diystyru buddiannau rhieni neu na ddylid eu hysbysu. Mae'r penderfyniadau a wneir gan y gweithwyr iechyd proffesiynol yn cael effaith fawr ar y rhieni yn ogystal ag ar y plentyn. Wrth gwrs, mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn hollol ymwybodol o hyn. Yn ogystal, maent yn sylweddoli pwysigrwydd cynnwys y rhieni yn y broses benderfynu mewn ffordd mor lawn ag sy'n cyd-fynd gyda budd pennaf y plentyn.'

Nod yr arweiniad hwn yw helpu meddygon i ddiogelu plant a phobl ifanc y maent yn byw gyda'u teuluoedd neu y maent yn byw oddi cartref, gan gynnwys y rhai y mae awdurdod lleol yn gofalu amdanynt.

Yn yr arweiniad hwn, mae 'camdriniaeth neu esgeulustod' yn golygu camdriniaeth gorfforol, emosiynol neu rywiol, gan gynnwys salwch ffug neu salwch gwneud, ac esgeulustod emosiynol neu gorfforol, y mae wedi arwain at neu y gallai arwain at niwed sylweddol i blentyn neu berson ifanc.^{2,3,4}

Mae gan bob meddyg ddyletswydd i fod yn ymwybodol o'r cyfreithiau, y codau ymarfer a'r dogfennau arweiniad diweddaraf, gan gynnwys ein cyngor yn *Arfer meddygol da*¹ a *0–18 oed: arweiniad i bob meddyg*⁵ a'n harweiniad ynghylch cyfrinachedd⁶ a chaniatâd,⁷ a'u dilyn. Mae'r llyfrynnau hyn yn cynnig mwy o gyngor ynghylch asesu galluedd a gwneud penderfyniadau ynghylch triniaeth sy'n ymwneud gydag iechyd plant a phobl ifanc.

Yn yr arweiniad hwn, defnyddir y termau 'rhaid i chi' a 'dylech' yn y ffordd canlynol:

- Defnyddir 'Rhaid i chi' ar gyfer egwyddor neu ddyletswydd o'r pwys mwyaf.
- Defnyddir 'Dylech' pan fyddwn yn rhoi esboniad o'r ffordd y byddwch yn cyflawni'r ddyletswydd o'r pwys mwyaf.
- Yn ogystal, defnyddir 'Dylech' pan na fydd y ddyletswydd neu'r egwyddor yn berthnasol ym mhob sefyllfa neu amgylchiad, neu pan fo ffactorau y tu allan i'ch rheolaeth yn effeithio ar sut neu a ydych yn gallu cydymffurfio â'r arweiniad hwn.

Mae'n hanfodol bod gan bob meddyg yr hyder i weithredu os byddant yn credu y gallai plentyn neu berson ifanc fod yn cael eu cam-drin neu'n cael eu hesgeuluso. Bydd modd cyfiawnhau unrhyw weithredu, hyd yn oed os darganfyddir nad yw'r plentyn neu'r person ifanc mewn perygl o ddiodef neu yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod, ar yr amod bod y pryderon yn rhesymol a'u bod wedi codi am resymau gonest, ac mae'r meddyg yn cymryd camau trwy'r sianelau priodol. Bydd modd i feddygon sy'n gwneud penderfyniadau ar sail yr egwyddorion yn yr arweiniad hwn, gyfiawnhau eu penderfyniadau a'r camau a gymrwyd ganddynt os byddwn yn cael cwyn am eu harfer.*

* Fel sy'n digwydd gyda'n holl arweiniad, bydd methiant difrifol neu barhaus i ddilyn y cyngor yn yr arweiniad hwn yn peryglu'ch cofrestrriad

Egwyddorion diogelu plant a phobl ifanc

- 1 Dylai'r egwyddorion canlynol gynnig canllaw i bob meddyg sy'n pryderu am ddiogelwch neu les plentyn neu berson ifanc.
 - a **Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i gael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod** – mae gan bob meddyg ddyletswydd i weithredu ynghylch unrhyw bryderon sydd ganddynt ynghylch diogelwch neu les plentyn neu berson ifanc.
 - b **Rhaid i bob meddyg ystyried anghenion a lles plant a phobl ifanc** – mae hyn yn cynnwys meddygon sy'n trin cleifion y maent yn oedolion.
 - c **Mae plant a phobl ifanc yn unigolion y mae ganddynt hawliau** – ni ddylai meddygon wahaniaethu mewn ffordd annheg yn erbyn plentyn neu berson ifanc am unrhyw reswm.*
 - d **Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i ymwneud gyda'u gofal eu hunain** – mae hyn yn cynnwys yr hawl i gael gwybodaeth sy'n briodol i lefel eu haeddfedrwydd a'u dealltwriaeth, yr hawl i gael eu clywed a'r hawl i ymwneud gyda phenderfyniadau mawr a wneir amdanynt, yn unol â'u galluedd sy'n datblygu (gweler y cyngor ynghylch asesu galluedd yn atodiad 1 yr arweiniad hwn).

* Mae *Deddf Cydraddoldeb 2010* yn nodi naw nodwedd a ddiogelir, nad oes modd eu defnyddio fel rheswm er mwyn trin pobl mewn ffordd annheg. Y rhain yw oedran, anabledd, rhyw, aibennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, a chyfeiriadedd rhywiol.

-
- e Rhaid i benderfyniadau a wneir am blant a phobl ifanc gael eu gwneud er eu budd pennaf** – nodir y ffactorau i'w hystyried wrth asesu budd pennaf yn atodiad 2.

 - f Mae gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yr hawl i gael cyngor a gofal meddygol cyfrinachol** – ond ni ddylai hyn atal meddygon rhag rhannu gwybodaeth os bydd angen gwneud hynny er mwyn diogelu plant a phobl ifanc rhag camdriniaeth neu esgeulustod.

 - g Mae'n well gwneud penderfyniadau ynghylch amddiffyn plant gydag eraill** – bydd ymgynghori gyda chydweithwyr ac asiantaethau eraill y maent yn meddu ar arbenigedd priodol yn diogelu ac yn hyrwyddo budd pennaf plant a phobl ifanc.

 - h Rhaid i feddygon fod yn gymwys a gweithio o fewn eu cymhwysedd er mwyn delio gyda materion amddiffyn plant*** – rhaid i feddygon sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r arfer gorau diweddaraf trwy gyfrwng hyfforddiant sy'n briodol i'w rôl. Rhaid i feddygon gael cyngor gan weithiwr proffesiynol penodol neu ddynodedig neu glinigydd arweiniol neu, os na fyddant ar gael, gan gydweithiwr profiadol os na fyddant yn siŵr sut i gyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.[†]

* Am arweiniad ynghylch cymhwysedd, gweler yr adroddiad rhyng-golegol ynghylch diogelu plant a phobl ifanc.⁸

† Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae gan weithwyr proffesiynol penodol a dynodedig rolau a chyfrifoldebau penodol er mwyn diogelu plant a phobl ifanc. Yn yr Alban, cyflawnir y rôl hwn gan y clinigydd arweiniol. Pan fyddwn yn cyfeirio at 'gydweithiwr profiadol' yn yr arweiniad hwn, rydym yn golygu cydweithiwr y mae ganddynt brofiad o wneud penderfyniadau ynghylch diogelwch a lles plant a phobl ifanc, ond nad ydynt yn weithiwr proffesiynol penodol neu ddynodedig neu'n glinigydd arweiniol.

Adnabod plant a phobl ifanc y maent mewn perygl o ddioddef neu y maent yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod

Pwyntiau allweddol

- Dylech fod yn ymwybodol o'r ffactorau risg y maent wedi cael eu gysylltu gyda chamdriniaeth ac esgeulustod, gan edrych am arwyddion y gallai plentyn neu berson ifanc fod mewn perygl.
- Os ydych yn trin claf sy'n oedolyn, dylech ystyried a yw'ch claf yn peri risg i blant neu bobl ifanc.
- Dylech gadw meddwl agored a bod yn wrthrychol pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau. Dylech weithio mewn partneriaeth gyda theuluoedd pan fo modd.
- Os nad ydych yn siŵr a yw plentyn neu berson ifanc mewn perygl, neu'r ffordd orau o ymateb i'ch pryderon, dylech holi gweithiwr proffesiynol penodol neu ddynodedig neu glinigydd arweiniol, neu os na fyddant ar gael, dylech holi cyngor cydweithiwr profiadol.

Rolau pob meddyg

- 2 Rhaid i chi ystyried diogelwch a lles plant a phobl ifanc os ydych yn eu gweld fel cleifion yn gyson neu beidio. Pan fyddwch yn gofalu am glaf y maent yn oedolyn, rhaid i chi roi'r pwys mwyaf ar eich claf, ond rhaid i chi ystyried hefyd a yw'ch claf yn peri risg i blant neu bobl ifanc. Rhaid i chi fod yn ymwybodol o'r ffactorau risg y maent yn gysylltiedig gyda chamdriniaeth ac esgeulustod, a chadw golwg am arwyddion y gallai'r plentyn neu'r person ifanc fod mewn perygl.

Mae'r ffactorau risg yn cynnwys cael rhieni y maent yn wynebu materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau, byw mewn cartref lle y mae trais domestig yn digwydd, neu'n byw mewn tlodi.* Ond nid yw'r amgylchiadau hyn yn arwain at gamdriniaeth neu esgeulustod o reidrwydd, ac mae materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant yn bodoli ym mhob rhan o'n cymdeithas.

- 3** Mae adnabod arwyddion camdriniaeth neu esgeulustod yn gynnar a gweithredu yn gyflym yn bwysig er mwyn diogelu plant a phobl ifanc. Mae gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni a theuluoedd yn gallu helpu plant a phobl ifanc i gael y gofal a'r cymorth y bydd angen iddynt ei gael er mwyn bod yn iach, yn ddiogel ac yn hapus, ac i wireddu eu potensial. Dylech gadw golwg am arwyddion y gallai bod angen cymorth ychwanegol ar deulu, a darparu cymorth o'r fath os yw hynny yn rhan o'ch rôl chi, neu gyfeirio'r teulu at wasanaethau plant awdurdod lleol neu iechyd er mwyn iddynt gael help priodol.†
- 4** Rhaid i chi wybod yr hyn i'w wneud os byddwch yn pryderu bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl o ddioddef neu yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod, neu yn achos claf sy'n feichiog, y bydd y plentyn mewn perygl o ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod ar ôl iddynt gael eu geni. Mae hyn yn golygu y dylech feddu ar wybodaeth weithredol am weithdrefnau lleol er mwyn diogelu plant a phobl ifanc yn eich ardal.‡ Dylech wybod pwy yw'ch gweithiwr proffesiynol penodol neu ddynodedig neu'ch clinigydd arweiniol, neu dylech fod wedi nodi cydweithiwr profiadol er mwyn i chi allu troi atynt am gyngor, a dylech fod yn gwybod sut i gysylltu â nhw.

* Am ragor o wybodaeth, gweler adroddiad y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol ynghylch pryd i amau bod plentyn yn cael eu cam-drin⁹ ac adolygiad Munro ynghylch amddiffyn plant.¹⁰

† Dylech ddilyn yr arweiniad yn *Cyfrinachedd*⁶ pan fyddwch yn rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill.

‡ Am arweiniad ynghylch y lefelau gwybodaeth sy'n briodol ar gyfer gwahanol rolau, gweler yr adroddiad rhyng-golegol ynghylch diogelu plant a phobl ifanc.⁸

- 5 Rhaid i chi weithredu ynghylch unrhyw bryderon sydd gennych am blentyn neu berson ifanc y gallent fod mewn perygl o ddioddef neu y maent yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod (gweler paragraffau 32–38).

Rolau meddygon sy'n gweithio gyda phlant neu bobl ifanc

- 6 Os ydych yn gweithio gyda phlant neu bobl ifanc, rhaid eich bod yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau er mwyn adnabod arwyddion a symptomau camdriniaeth ac esgeulustod,^{2, 3, 4, 9, 11, 12, 13} a gweithredu mewn ffordd briodol ac yn ddi-oed yn ôl yr angen.
- 7 Rhaid i chi gael meddwl agored pan fyddwch yn ystyried achos posibl anaf neu arwyddion eraill y gallent awgrymu bod plentyn neu berson ifanc yn cael eu cam-drin neu'n cael eu hesgeuluso. Er enghraifft, fel rhan o'r diagnosis gwahaniaethol, dylech ystyried a allai cyflwr anghyffredin, gan gynnwys cyflwr genetig, fod wedi achosi neu gyfrannu at anaf neu symptomau'r plentyn neu'r person ifanc. Yn ogystal, rhaid i chi sicrhau y bydd anghenion clinigol plant a phobl ifanc yn parhau i gael eu bodloni, ac na fyddant yn cael eu taflu i'r cysgod gan bryderon amddiffyn plant.
- 8 Dylech weithio gyda rhieni a theuluoedd pan fo modd er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y gofal a'r cymorth y mae angen iddynt ei gael. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer plant a phobl ifanc y maent yn byw mewn amgylchiadau sy'n achosi cryn straen – er enghraifft, oherwydd eu bod yn gofalu am riant neu mae eu riant yn yr ysbyty. Dylech fod yn ymwybodol o wasanaethau yn eich ardal y byddent yn gallu darparu help priodol, gan gynnwys, er enghraifft, gwasanaethau a ddarparir gan grwpiau gwirfoddol.

- 9** Mewn rhai achosion, efallai y bydd yn anodd adnabod pan fydd rhyddid rhieni i fagu eu plant yn unol â'u harferion neu eu credoau diwylliannol neu hiliol, yn peri pryder ynghylch lles corfforol neu emosiynol plentyn neu berson ifanc.* Dylech feithrin eich dealltwriaeth ynghylch arferion a chredoau y gwahanol gymunedau diwylliannol a chrefyddol yr ydych yn eu gwasanaethu.
- 10** Rhaid i chi sicrhau nad yw'ch cefndir diwylliannol neu grefyddol yn effeithio ar eich gwrthrychedd. Wrth benderfynu a ddylid codi pryderon amddiffyn plant gyda rhieni neu gydag asiantaethau eraill, rhaid i chi ystyried y materion mewn ffordd ddiuedd a sicrhau nad yw'ch safbwyntiau personol ynghylch arferion neu gredoau diwylliannol rhieni ac oedolion eraill yn effeithio ar eich penderfyniadau amdanyn nhw neu eu teulu. Os bydd gennych unrhyw amheuan, dylech geisio cyngor mudiad gwirfoddol neu broffesiynol y mae ganddynt brofiad o weithio gyda chymuned benodol. Neu, dylech ofyn am gyngor gweithiwr proffesiynol penodol neu ddynodedig neu glinigydd arweiniol, neu os na fyddant ar gael, dylech ofyn am gyngor cydweithiwr profiadol.
- 11** Ar ôl trafod y materion gyda'r rhieni, os bydd gennych bryderon o hyd bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl o ddiodef neu yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod, beth bynnag fo'r achos, rhaid i chi hysbysu asiantaeth briodol (gweler yr arweiniad ym mharagraffau 32-38).
- 12** Os ydych yn weithiwr proffesiynol penodol neu ddynodedig, neu'n glinigydd arweiniol, dylech sicrhau bod eich cydweithwyr yn gwybod pa help y mae modd i chi ei gynnig a sut y mae modd cysylltu â chi er mwyn cael cyngor a chymorth.

* Gweler ein harweiniad ¹⁴ am gyngor ynghylch enwaedu gwrywod. Mae anffurfio organau cenhedlu benywod – y cyfeirir ato weithiau fel enwaedu benywod – yn drosedd ddifrifol ac yn fater amddiffyn plant.^{15,16} Er mis Hydref 2015, mae gan feddygon yng Nghymru a Lloegr ddyletswydd gyfreithiol i adrodd am achosion hysbys o anffurfio organau cenhedlu benywod ymhlith merched a menywod ifanc dan 18 oed i'r heddlu. Mae Llywodraeth EM wedi cyhoeddi canllawiau arfer aml-asiantaeth ac arweiniad gweithdrefnol ar gyfer adrodd gorfodol yng Nghymru a Lloegr.¹⁷ Cyhoeddwyd canllawiau aml-asiantaeth ar gyfer Gogledd Iwerddon gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon.¹⁸ Mae modd gweld gwybodaeth ynghylch y gwaith yn yr Alban ar-lein.¹⁹

Cyfathrebu a chymorth

Pwyntiau allweddol

- Dylech wrando ar blant a phobl ifanc, ac ystyried eu safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau.
- Dylech ddefnyddio dulliau cyfathrebu sy'n briodol i'ch grŵp o gleifion. Dylech wneud addasiadau rhesymol er mwyn darparu gwybodaeth y bydd plant, pobl ifanc a'u rhieni yn dymuno gwybod neu y bydd angen iddynt ei gwybod, mewn ffordd y gallant ei deall.
- Dywedwch wrth blant, pobl ifanc a'u rhieni pan fydd gennych bryderon ynghylch camdriniaeth neu esgeulustod, a sut y byddwch yn ymateb i'r pryderon hyn, oni bai y gallai gwneud hyn roi'r plentyn neu'r person ifanc, neu unrhyw un arall, mewn perygl o ddiodef niwed.
- Dylech gael cyngor os nad ydych yn siŵr pa risgiau sy'n gysylltiedig gyda dweud wrth rieni am eich pryderon, a'r ffordd orau o reoli risgiau o'r fath.

Bodloni anghenion cyfathrebu

- 13** Mae bodloni anghenion cyfathrebu ac ieithyddol plant, pobl ifanc a rhieni yn bwysig mewn unrhyw agwedd ar ofal, ond mae'n arbennig o bwysig os ydych yn amau camdriniaeth neu esgeulustod. Os ydych yn gwybod ymlaen llaw y bydd pryderon amddiffyn plant yn cael eu trafod yn ystod ymgynghoriad, dylech sicrhau bod trefniadau wedi cael eu gwneud er mwyn bodloni anghenion cyfathrebu ac ieithyddol y plentyn neu'r person ifanc a'u rhieni. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, defnyddio cyfieithydd neu eiriolwr annibynnol. Os byddwch yn amau camdriniaeth neu esgeulustod, ni ddylech ddibynnu ar blant neu aelodau teuluol eraill i gyfieithu ar gyfer y rhieni, neu ddibynnu ar rieni i gyfieithu ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.

- 14** Dylai fod modd i chi ddefnyddio dulliau cyfathrebu sy'n briodol i'ch grŵp o gleifion. Er enghraifft, os ydych yn cyfathrebu gyda phlant ifanc iawn neu bobl y mae ganddynt anableddau dysgu, dylech fod yn barod i ddefnyddio dulliau megis iaith sy'n briodol i'w hoedran, cardiau fflach neu arwyddion er mwyn cyfathrebu mewn ffordd effeithiol. Mae cyngor a chymorth gan sefydliadau y mae ganddynt wybodaeth arbenigol am anableddau penodol yn gallu'ch helpu i fodloni anghenion ieithyddol neu gyfathrebu plant, pobl ifanc neu rieni y mae ganddynt anableddau penodol.

Cyfathrebu gyda phlant a phobl ifanc

- 15** Mae plant a phobl ifanc yn unigolion y mae ganddynt hawliau y mae'n rhaid i chi eu parchu. Rhaid i chi wrando ar blant a phobl ifanc a siarad gyda nhw mewn ffordd uniongyrchol, gan ystyried eu hoedran a'u haeddfedrwydd. Rhaid i chi ateb eu cwestiynau mewn ffordd onest a gwneud yn siŵr eu bod yn gwybod pwy y gallant droi atynt am help neu gymorth (gweler tudalennau 57-58 yr arweiniad hwn am enghreifftiau o sefydliadau sy'n gallu cynnig cyngor a chymorth).
- 16** Rhaid i chi ystyried safbwyntiau plant a phobl ifanc o ddifrif, a pheidio diystyru eu pryderon, eu hofnau neu eu safbwyntiau oherwydd eu hoedran. Hyd yn oed os na fydd plant yn ddigon aeddfed i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, mae eu safbwyntiau a'u dewisiadau yn bwysig i chi o hyd, ac mae'n rhaid i chi eu hystyried wrth asesu eu lles pennaf. Am ragor o gyngor, gweler paragraffau 14-21 *0-18 oed: arweiniad i bob meddyg*.⁵

- 17** Mewn rhai achosion, gallai cael rhiant yn yr ystafell yn ystod ymgynghoriad atal plentyn neu berson ifanc rhag bod yn agored ynghylch yr hyn sydd wedi digwydd iddynt, neu ynghylch unrhyw bryderon neu ofnau sydd ganddynt. Yn yr amgylchiadau hyn, dylech ystyried siarad gyda'r plentyn neu'r person ifanc heb i'r rhiant fod yn bresennol, mewn amgylchedd addas a chan drefnu bod cymorth priodol ar gael iddynt – er enghraifft, trwy drefnu bod gweithiwr iechyd proffesiynol, cydweithiwr profiadol neu unigolyn cymorth arall yn bresennol.

Cyfathrebu gyda rhieni

- 18** Mae cyfathrebu da gyda rhieni yn hanfodol. Yn gyffredinol, mae rhieni yn dymuno sicrhau'r gorau i'w plant ac maent yn arbenigwyr wrth adnabod pan na fydd ymddygiad eu plentyn yn normal ac y gallai hyn fod oherwydd salwch. Dylech gydnabod dealltwriaeth rhieni o iechyd eu plant, yn enwedig pan fo oedran neu anabledd plentyn yn golygu ei bod yn anodd cyfathrebu gyda nhw.
- 19** Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn niweidio plant yn eu gofal yn fwriadol. Ond mae nifer fach o rieni yn cam-drin neu'n esgeuluso eu plant ac ni fyddant yn onest wrth ddweud wrthyhych am ddigwyddiadau neu am eu ffordd o fyw. Rhaid i chi wrando'n ofalus ar rieni, plant a phobl ifanc, gan ymchwilio i ddisgrifiadau anghyson a chadw meddwl agored ynghylch achos anaf plentyn neu berson ifanc, neu unrhyw arwydd arall a allai awgrymu camdriniaeth neu esgeulustod.

- 20** Fel arfer, dylech drafod unrhyw bryderon sydd gennych am ddiogelwch neu les plentyn neu berson ifanc gyda'u rhieni. Ni ddylech ymatal rhag darparu gwybodaeth am eich pryderon, neu am benderfyniad i wneud cyfeiriad, oni bai eich bod o'r farn y gallai dweud wrth y rhieni gynyddu risg niwed i'r plentyn neu'r person ifanc neu i unrhyw un arall. Os bydd yn anodd i chi benderfynu ar hyn neu os nad ydych yn siŵr ynghylch y ffordd orau o ddelio gyda'r sefyllfa, dylech ofyn am gyngor gweithiwr proffesiynol penodol neu ddynodedig neu glinigydd arweiniol, neu os na fyddant ar gael, dylech ofyn am gyngor cydweithiwr profiadol.
- 21** Wrth drafod eich pryderon gyda rhieni, dylech esbonio bod gan feddygon ddyletswydd broffesiynol i fynegi eu pryderon os byddant o'r farn bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl o ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod. Dylech esbonio'r camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd, gan gynnwys os byddwch yn penderfynu cysylltu â gwasanaethau plant yr awdurdod lleol. Dylech roi'r wybodaeth hon i'r rhieni pan fyddwch yn dechrau pryderu am ddiogelwch neu les plentyn neu berson ifanc, a thrwy gydol cyswllt teulu gyda gweithdrefnau amddiffyn plant.
- 22** Rhaid i chi barhau i hysbysu rhieni am yr hyn sy'n digwydd, gan gynnig cyfleoedd iddynt i ofyn cwestiynau, ac mae'n rhaid i chi fod yn fodlon ateb eu cwestiynau mewn ffordd agored a gonest. Mae bod yn agored ac yn onest gyda theuluoedd pan fynegir pryderon ynghylch diogelwch neu les plentyn neu berson ifanc, ac osgoi sylwadau sy'n barnu neu feio rhywun, yn gallu annog teuluoedd i gydweithredu ac i helpu plant a phobl ifanc i aros gyda'u teuluoedd ac i fod yn ddiogel yno. Dylech roi gwybodaeth i rieni ynghylch ble y mae modd iddynt gael cyngor annibynnol a chymorth ychwanegol (gweler tudalennau 57-58 yr arweiniad hwn am enghreifftiau o sefydliadau sy'n gallu cynnig cyngor a chymorth).

Gweithio mewn partneriaeth

Pwyntiau allweddol

- Dylech ddeall rolau asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gyfrifol am ddiogelu plant a phobl ifanc, a gweithio mewn partneriaeth gyda nhw.
- Cyfrannu at weithdrefnau amddiffyn plant a darparu gwybodaeth berthnasol ar gyfer cyfarfodydd amddiffyn plant os na fydd modd i chi eu mynychu.
- Gwybod pwy yw'ch gweithiwr proffesiynol penodol neu ddynodedig neu'ch clinigydd arweiniol, a sut y mae modd cysylltu â nhw.

Cydweithio gydag eraill a chyfathrebu mewn ffordd effeithiol

- 23** Rhaid i chi weithio gyda chydweithwyr o fewn eich tîm a'ch sefydliad, a gydag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill, a chyfathrebu gyda nhw mewn ffordd effeithiol. Mae hyn yn cynnwys ymwelwyr iechyd, nyrsys eraill, gweithwyr cymdeithasol a'r heddlu.
- 24** Dylech ddeall a parchu rolau, cyfrifoldebau, polisiau ac arferion amddiffyn plant asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill, a chydweithredu gyda nhw. Rhaid i chi fod yn eglur am eich rôl a'ch cyfrifoldebau chi wrth ddiogelu plant a phobl ifanc, a bod yn barod i esbonio hyn i gydweithwyr ac i weithwyr proffesiynol eraill.

- 25** Dylech sicrhau eich bod yn meddu ar systemau effeithiol er mwyn cyfathrebu gydag ymwelwyr iechyd, swyddogion arweiniol amddiffyn plant ac asiantaethau statudol eraill, naill ai'n rheolaidd neu yn ôl yr angen. Rhaid i chi wybod pwy y dylech gysylltu â nhw a sut i gysylltu â nhw.

Cymryd rhan mewn gweithdrefnau amddiffyn plant

- 26** Os gofynnir i chi gymryd rhan mewn gweithdrefnau amddiffyn plant, rhaid i chi gydweithredu'n llawn. Dylai hyn gynnwys mynychu cynadleddau amddiffyn plant, cyfarfodydd strategaeth ac adolygiadau achos er mwyn darparu gwybodaeth a mynegi'ch barn. Efallai y bydd modd i chi gyfrannu hyd yn oed os na fydd gennych unrhyw bryderon penodol (er enghraifft, mae modd i feddygon teulu rannu argraffiadau unigryw ynghylch teulu plentyn neu berson ifanc weithiau).
- 27** Os trefnir cyfarfodydd ar fyr rybudd neu ar adegau anghyfleus, dylech ymdrechu i'w mynychu. Os na fydd modd i chi fod yno, rhaid i chi geisio darparu gwybodaeth berthnasol ynghylch y plentyn neu'r person ifanc a'u teulu i'r cyfarfod, naill ar dros y ffôn neu thrwy gyfrwng cyfleuster fideo-gynadledda, ar ffurf adroddiad ysgrifenedig neu thrwy drafod y wybodaeth gyda gweithiwr proffesiynol arall (er enghraifft, yr ymwelydd iechyd), er mwyn iddynt allu rhoi adroddiad llafar yn ystod y cyfarfod.

Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth

Pwyntiau allweddol

- Dylech ddweud wrth asiantaeth briodol ar unwaith os ydych yn pryderu bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl o ddioddef neu yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod. Dylech sicrhau cyngor os ydych yn pryderu ynghylch posibilrwydd camdriniaeth neu esgeulustod, ond nid ydych o'r farn bod y plentyn neu'r person ifanc mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol.
- Dylech ofyn am ganiatâd i rannu gwybodaeth oni bai bod rheswm arbennig dros beidio gwneud hynny. Mae modd rhannu gwybodaeth heb sicrhau caniatâd os bydd modd cyfiawnhau hynny er budd y cyhoedd neu os bydd hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Ni ddylech oedi er mwyn sicrhau caniatâd cyn datgelu gwybodaeth os allai hynny roi plant neu bobl ifanc mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol.
- Dylech ddweud wrth eich claf pa wybodaeth a rannwyd, gyda phwy a pham, oni bai y byddai gwneud hyn yn rhoi'r plentyn, y person ifanc neu unrhyw un arall mewn mwy o berygl.
- Dylech gael cyngor os nad ydych yn siŵr pa wybodaeth i'w rhannu, pwy y dylid rhannu'r wybodaeth gyda nhw neu'r ffordd orau o reoli unrhyw risg sy'n gysylltiedig gyda rhannu gwybodaeth.

Egwyddorion cyfrinachedd

- 28** Mae cyfrinachedd yn allweddol ar gyfer yr ymddiriedaeth rhwng meddygon a chleifion, ac yn rhan hanfodol o ofal da. Heb sicrwydd ynghylch cyfrinachedd, efallai y bydd plant a phobl ifanc, yn ogystal ag oedolion, yn amharod i gael sylw meddygol neu i roi'r wybodaeth i feddygon y bydd angen iddynt ei chael er mwyn darparu gofal da.

- 29** Efallai y bydd pobl ifanc yn eu harddegau yn arbennig o bryderus ynghylch cadw gwybodaeth yn gyfrinachol o'u rhieni, ysgolion, gwasanaethau plant, yr heddlu ac asiantaethau statudol eraill. Efallai y bydd gan bobl ifanc, rhieni ac oedolion eraill sy'n cael gofal seiciatrig, a phobl agored i niwed eraill, bryderon tebyg ynghylch rhannu gwybodaeth gyfrinachol.
- 30** Ond mae rhannu gwybodaeth mewn ffordd briodol yn hanfodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol, ar gyfer yr unigolyn a'r gymuned ehangach. Yn ogystal, mae wrth wraidd gweithgarwch amddiffyn plant effeithiol. Mae'n hanfodol bod pob meddyg yn meddu ar yr hyder i weithredu ar sail eu pryderon ynghylch camdriniaeth neu esgeulustod posibl plentyn neu berson ifanc.
- 31** Nid yw cyfrinachedd yn ddyletswydd absoliwt.* Dim ond os bydd un o'r canlynol yn berthnasol y bydd modd i chi rannu gwybodaeth gyfrinachol am rywun.
- a** Rhaid i chi wneud hynny[†] yn ôl y gyfraith neu er mwyn ymateb i orchymyn llys.[‡]
 - b** Mae'r unigolyn y mae'r wybodaeth yn ymwneud â nhw wedi rhoi eu caniatâd i chi rannu'r wybodaeth (neu mae'r unigolyn sy'n meddu ar gyfrifoldeb rhiant wedi rhoi eu caniatâd os yw'r wybodaeth yn ymwneud â phlentyn nad ydynt yn meddu ar y galluedd i roi caniatâd).[§]

* Gweler ein harweiniad llawn ynghylch cyfrinachedd.⁶

† Nid yw bob amser yn syml asesu a oes gofyniad cyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth. Os bydd gennych chi unrhyw amheuaeth, dylech geisio cyngor cyfreithiol. Os bydd y llys wedi mynnu bod datgeliad yn digwydd, ac os nad ydych yn siŵr pa mor berthnasol yw gwybodaeth neu gofnodion, dylech geisio eglurhad gan y cyfreithwyr cyfarwyddol neu'r llys.

‡ Nid oes modd asesu bob amser a oes gofyniad cyfreithiol yn bodoli i ddatgelu gwybodaeth. Os bydd gennych unrhyw amheuaeth, dylech geisio cyngor cyfreithiol. Os bydd y llys wedi mynnu datgeliad ac os nad ydych yn siŵr ynghylch pa mor berthnasol yw gwybodaeth neu gofnodion, dylech geisio eglurhad gan eich cyfreithwyr cyfarwyddol neu'r llys.

§ Gweler atodiad 1 yr arweiniad hwn am gyngor ynghylch asesu galluedd. Mae modd gweld mwy o arweiniad yn 0–18 oed: *arweiniad i bob meddyg*.⁵

- c Mae modd ei gyfiawnhau er budd y cyhoedd – er enghraifft, os bydd y manteision i blentyn neu berson ifanc a fydd yn deillio o rannu'r wybodaeth yn drech na budd y cyhoedd a'r budd i'r unigolyn o gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol.

Rhannu gwybodaeth pan fyddwch yn pryderu bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl o ddioddef neu yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod

- 32 Rhaid i chi ddweud wrth asiantaeth briodol, megis gwasanaethau plant eich awdurdod lleol, NSPCC neu'r heddlu ar unwaith os byddwch yn pryderu bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl o ddioddef neu yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod, oni bai na fyddai gwneud hynny er eu budd pennaf (gweler paragraffau 39 a 40). Ni fydd angen i chi fod yn sicr bod y plentyn neu'r person ifanc mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol er mwyn cymryd y cam hwn. Os bydd plentyn neu berson ifanc mewn perygl o ddioddef neu yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod, bydd canlyniadau posibl peidio rhannu gwybodaeth berthnasol, ym mwyafrif llethol yr achosion, yn drech nag unrhyw niwed y gallai rhannu eich pryderon gydag asiantaeth briodol ei achosi.
- 33 Wrth ddweud wrth asiantaeth briodol am eich pryderon, dylech ddarparu gwybodaeth am y ddau beth canlynol:
 - a manylion y plentyn neu'r person ifanc, eu rhieni ac unrhyw berson arall y gallent achosi perygl iddynt
 - b y rhesymau dros eich pryderon, gan gynnwys gwybodaeth am iechyd y plentyn neu'r person ifanc ac unrhyw wybodaeth berthnasol am eu rhieni neu eu gofalwyr.

- 34** Dylech ofyn am ganiatâd cyn rhannu gwybodaeth gyfrinachol, oni bai bod rheswm arbennig dros beidio gwneud hynny. Er enghraifft, oherwydd:
- a** y byddai oedi cyn rhannu gwybodaeth berthnasol gydag awdurdod neu unigolyn priodol yn cynyddu'r perygl y bydd y plentyn neu'r person ifanc yn dioddef niwed
 - b** y gallai gofyn am ganiatâd gynyddu'r perygl y bydd y plentyn, y person ifanc, chi neu unrhyw un arall yn dioddef niwed.
- 35** Dylech ofyn i'r plentyn neu'r person ifanc am ganiatâd os ydynt yn meddu ar y galluedd i'w roi. Os na, dylech ofyn i unigolyn y maent yn meddu ar gyfrifoldeb rhiant. Yn ogystal, dylech ofyn am ganiatâd unrhyw oedolion yr ydych yn dymuno rhannu gwybodaeth amdanynt. Wrth ofyn am ganiatâd, dylech esbonio'r rheswm pam eich bod yn dymuno rhannu gwybodaeth, a sut y bydd hyn o fudd i'r plentyn neu'r person ifanc. Yn ogystal, dylech esbonio'r holl bethau canlynol:
- a** pa wybodaeth y byddwch yn ei rhannu
 - b** pwy y byddwch yn ei rhannu gyda nhw
 - c** sut y defnyddir y wybodaeth
 - d** ble y bydd modd iddynt gael cyngor a chymorth annibynnol (gweler tudalennau 57-58 yr arweiniad hwn am enghreifftiau o sefydliadau).

Rhannu gwybodaeth heb ganiatâd

- 36** Mae modd i chi rannu gwybodaeth gyfrinachol heb sicrhau caniatâd os bydd gofyn i chi wneud hynny yn ôl y gyfraith neu os byddwch yn cael cyfarwyddyd gan lys, neu os bydd y manteision i blentyn neu berson ifanc a fydd yn codi o rannu'r wybodaeth yn drech na'r budd i'r cyhoedd ac i'r unigolyn o gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol. Rhaid i chi bwysu'r niwed sy'n debygol o ddigwydd os na fyddwch yn rhannu'r wybodaeth, yn erbyn y niwed posibl i'r unigolyn ac i'r ymddiriedaeth gyffredinol rhwng meddygon a chleifion o bob oedran, a fydd yn deillio o ryddhau'r wybodaeth honno.
- 37** Os bydd plentyn neu berson ifanc sy'n meddu ar alluedd, neu riant, yn gwrthod rhoi eu caniatâd i chi rannu gwybodaeth, dylech ystyried eu rhesymau dros wrthod, a phwyso canlyniadau posibl peidio rhannu'r wybodaeth yn erbyn y niwed y gallai rhannu'r wybodaeth ei achosi. Os bydd plentyn neu berson ifanc mewn perygl o ddiodef neu yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod, bydd rhannu gwybodaeth gyda'r asiantaeth briodol er eu budd pennaf fel arfer.
- 38** Os byddwch yn rhannu gwybodaeth heb sicrhau caniatâd, dylech esbonio'ch rheswm dros wneud hynny i'r bobl y mae'r wybodaeth yn ymwneud â nhw, a darparu'r wybodaeth a ddisgrifir ym mharagraff 35, oni bai y byddai gwneud hyn yn rhoi'r plentyn, y person ifanc neu unrhyw un arall mewn mwy o berygl. Yn ogystal, dylech gofnodi'ch penderfyniad fel y nodir ym mharagraff 54.

Oedi cyn rhannu gwybodaeth

- 39** Rhaid i unrhyw benderfyniad i oedi cyn rhannu gwybodaeth gydag asiantaeth briodol pan fo plentyn neu berson ifanc mewn perygl o ddioddef neu yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod, gael ei wneud mewn ffordd ofalus, a dim ond mewn amgylchiadau pan fo'r risg uwch i ddiogelwch neu les y plentyn neu'r person ifanc yn amlwg yn drech na'r manteision o rannu gwybodaeth. Rhaid bod modd i chi gyfiawnhau'ch penderfyniad. Rhaid i chi gofnodi'r penderfyniad i beidio rhannu gwybodaeth ar unwaith, ynghyd â'ch rhesymau ac unrhyw gyngor yr ydych wedi'i gael.
- 40** Os byddwch, fel eithriad, yn penderfynu na fyddai rhannu gwybodaeth ar unwaith gyda gwasanaethau plant yr awdurdod lleol neu asiantaeth briodol arall er budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc, dylech drafod hyn gyda'r plentyn neu'r person ifanc, neu eu rhieni. Rhaid i chi gadw mewn cysylltiad gyda'r plentyn neu'r person ifanc, gan adolygu'r penderfyniad i oedi cyn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd. Rhaid i chi geisio sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn cael y gofal a'r cymorth y mae angen iddynt ei gael.
- 41** **Wrth rannu pryderon ynghylch camdriniaeth neu esgeulustod posibl, nid ydych yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch y ffordd orau o ddiogelu plentyn neu berson ifanc.** Rôl gwasanaethau plant yr awdurdod lleol yw hwnnw, ac yn y pen draw, rôl y llysoedd. Hyd yn oed os darganfyddir nad yw'r plentyn neu'r person ifanc mewn perygl o ddioddef neu yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod, bydd modd cyfiawnhau rhannu gwybodaeth ar yr amod bod eich pryderon yn rhesymol a'u bod wedi codi am resymau gonest, eich bod yn rhannu'r wybodaeth gyda'r asiantaeth briodol a'ch bod yn rhannu gwybodaeth berthnasol yn unig.

Ymateb i'ch pryderon

- 42** Dylech ymateb i'ch pryderon a'u symud ymlaen i'r lefel awdurdod nesaf os byddwch o'r farn nad yw'r person neu'r asiantaeth y gwnaethoch eu hysbysu am eich pryderon wedi gweithredu yn eu cylch mewn ffordd briodol, a bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl o ddioddef neu yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod o hyd.

Mân bryderon y gallent fod yn rhan o ddarlun ehangach

- 43** Yn aml, dim ond pan fydd nifer o bobl yn rhannu'r hyn y maent yn ymddangos fel mân bryderon y bydd risgiau i ddiogelwch a lles plant neu bobl ifanc yn dod i'r amlwg. Gallai hyn gynnwys pobl o wahanol asiantaethau. Os bydd cyflwr neu ymddygiad plentyn neu berson ifanc yn peri i chi ystyried y gallai camdriniaeth neu esgeulustod fod yn un esboniad posibl,^{*} ond nid ydych o'r farn eu bod yn mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol, dylech drafod eich pryderon gyda'ch gweithiwr proffesiynol penodol neu ddynodedig neu'ch clinigydd arweiniol neu, os na fyddant ar gael, gyda chydweithiwr profiadol. Os oes modd, dylech wneud hyn heb ddatgelu manylion y plentyn neu'r person ifanc.

^{*} Mae modd i chi weld trafodaeth fanwl am sefyllfaoedd pan allai camdriniaeth neu esgeulustod esbonio cyflwr neu ymddygiad yr unigolyn, neu fod yn rhan o'r diagnosis gwahaniaethol, yn adroddiad y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol ynghylch pryd y dylid amau bod plentyn yn cael eu cam-drin.⁹

- 44** Os na fydd eich trafodaethau yn cynnig safbwynt eglur ynghylch posibilrwydd camdriniaeth neu esgeulustod, dylech ystyried rhannu gwybodaeth berthnasol gyfyngedig gydag asiantaethau eraill sy'n cael cyswllt gyda'r plentyn neu'r person ifanc, er mwyn penderfynu a oes risg yn bodoli a fyddai'n cyfiawnhau rhannu gwybodaeth bellach. Byddai gwybodaeth berthnasol yn cynnwys manylion y plentyn neu'r person ifanc a chrynodeb byr o achos y pryder. Rhaid i chi ofyn am ganiatâd i wneud hyn fel y disgrifiwyd ym mharagraff 35. Os bydd yr unigolyn neu'r bobl y byddwch yn gofyn iddynt yn gwrthod rhoi eu caniatâd, dylech asesu a yw'r manteision posibl o rannu gwybodaeth yn drech na'r manteision o gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol, fel y disgrifiwyd ym mharagraff 37.
- 45** Os nad ydych yn fodlon bod modd cyfiawnhau rhannu gwybodaeth dan yr amgylchiadau, dylech adolygu'r sefyllfa yn rheolaidd, gan ystyried diogelwch a lles y plentyn neu'r person ifanc. Dylech annog y rhieni neu'r plentyn neu'r person ifanc i gael help a chymorth. Os byddwch yn pryderu yn nes ymlaen bod y plentyn neu'r person ifanc mewn perygl o ddioddef neu yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod, rhaid i chi ddweud wrth asiantaeth briodol fel y nodwyd ym mharagraff 32.

Ymateb i geisiadau am wybodaeth

- 46** Dylech ystyried yr holl geisiadau am wybodaeth at ddibenion amddiffyn plant o ddifrif ac yn gyflym, gan gofio y gallai gwrthod rhoi'r wybodaeth hon, neu oedi cyn gwneud hynny, gynyddu'r perygl i blentyn neu berson ifanc, neu danseilio ymdrechion i'w diogelu.

-
- 47** Rhaid i chi ymateb mewn ffordd lawn a chyflym i orchymyn llys sy'n gofyn am wybodaeth. Yn ogystal, rhaid i chi gydweithredu gyda cheisiadau am wybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer adolygiadau ffurfiol* a gynhelir ar ôl marwolaeth plentyn neu berson ifanc neu ar ôl i blentyn neu berson ifanc gael niwed difrifol ac mae'n hysbys neu'n cael ei amau bod camdriniaeth neu esgeulustod wedi bod yn ffactor. Diben adolygiad o'r fath yw dysgu gwersi ar ôl gwneud camgymeriadau, a gwella systemau a gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Yn ogystal, dylech gydweithredu gyda gweithdrefnau a sefydlwyd er mwyn diogelu'r cyhoedd rhag troseddwy'r rhyw a throseddwy'r treisgar.†
- 48** Cyn rhannu gwybodaeth gyfrinachol, dylech gymryd yr holl gamau canlynol.
- a** Cadarnhau manylion yr unigolyn sydd wedi gofyn am y wybodaeth – er enghraifft, trwy eu ffonio yn ôl os byddwch yn cael cais dros y ffôn gan unigolyn neu asiantaeth nad ydych yn eu hadnabod.
 - b** Cadarnhau bod y cais yn ddilys, deall pam bod yr unigolyn neu'r asiantaeth yn gofyn am y wybodaeth, pa wybodaeth y mae angen iddynt ei chael, a sut y gallent ddefnyddio'r wybodaeth yn y dyfodol.
 - c** Sicrhau eich bod wedi bodloni un o'r amodau er mwyn rhannu gwybodaeth, a nodwyd ym mharagraff 31.

* Er enghraifft, adolygiadau achos difrifol yng Nghymru a Lloegr, adolygiadau achos arwyddocaol yn yr Alban, adolygiadau rheoli achos yng Ngogledd Iwerddon, cwestau ac ymchwiliadau, ac ymchwiliadau i farwolaethau sydyn neu annisgwyl plant.

† Er enghraifft, trefniadau amlasiantaethol ar gyfer diogelu'r cyhoedd (MAPP) yng Nghymru, Lloegr a'r Alban a threfniadau diogelu'r cyhoedd yng Ngogledd Iwerddon (PPANI). Gweler paragraff 56 *Cyfrinachedd* am arweiniad pellach.⁶

- 49** Dim ond gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cais y dylech ei rhannu. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y plentyn neu'r person ifanc, eu rhieni ac unrhyw bobl perthnasol eraill y maent yn cael cyswllt gyda'r plentyn neu'r person ifanc. Bydd gwybodaeth berthnasol yn cynnwys ffactorau risg teuluol, megis camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, neu achosion blaenorol o gamdriniaeth neu esgeulustod, ond ni ddylech rannu cofnodion cyflawn fel arfer.* Os byddwch yn rhannu gwybodaeth heb sicrhau caniatâd, dylech ddilyn y cyngor ym mharagraff 38.
- 50** Os nad ydych yn siŵr a ddylech rannu gwybodaeth neu beidio, dylech drafod eich pryderon a'r ffordd orau o reoli unrhyw risg i blentyn neu berson ifanc gyda'ch gweithiwr proffesiynol penodol neu ddynodedig neu'r clinigydd arweiniol, neu os na fyddant ar gael, gyda chydweithiwr profiadol.

Rhannu gwybodaeth yn y tîm gofal iechyd neu gydag eraill sy'n darparu gofal

- 51** Os bydd plentyn neu berson ifanc y ceir amheuan eu bod mewn perygl o ddioddef neu yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod yn cael eu cyfeirio at ofal iechyd arbenigol, dylech sicrhau eich bod yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y pryderon amddiffyn plant yn y cyfeiriad. Dylech hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc, neu'r rhieni, o'r hyn a rannwyd a gyda phwy, oni bai y byddai gwneud hyn yn rhoi'r plentyn, y person ifanc neu unrhyw un arall mewn mwy o berygl.

* Os nad ydych yn siŵr a yw gwybodaeth yn berthnasol ac a ddylid rhannu gwybodaeth benodol neu beidio, gweler paragraffau 42–52 0–18 oed: *arweiniad i bob meddyg*.⁵

Cadw cofnodion

Pwyntiau allweddol

- Dylech gadw cofnodion eglur, manwl a darllenadwy.
- Dylech baratoi cofnodion ar yr adeg pan fydd digwyddiadau yn digwydd, neu cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny.
- Dylech gofnodi'ch pryderon, gan gynnwys unrhyw fân bryderon, a manylion unrhyw gamau yr ydych wedi'u cymryd, gwybodaeth yr ydych wedi'i rhannu a phenderfyniadau yr ydych wedi'u gwneud, y maent yn ymwneud gyda'r pryderon hynny.
- Dylech sicrhau bod gwybodaeth a allai fod yn berthnasol er mwyn cadw plentyn neu berson ifanc yn ddiogel, ar gael i glinigwyr eraill sy'n darparu gofal ar eu cyfer.

Yr hyn y dylech ei gofnodi

- 52** Rhaid i chi gadw cofnodion eglur, manwl a darllenadwy. Rhaid i chi gofnodi'ch pryderon, gan gynnwys mân bryderon, yng nghofnodion y plentyn neu'r person ifanc (ac yng nghofnodion eu rhieni os oes modd i chi droi atynt). Yn ogystal, rhaid i chi gofnodi canfyddiadau clinigol, penderfyniadau yr ydych wedi'u gwneud, camau yr ydych wedi'u cymryd, gwybodaeth yr ydych wedi'i rhoi a'i chael, a sgysiau yr ydych wedi'u cael gyda'r plentyn, y person ifanc, eu rhieni neu aelodau teuluol eraill. Rhaid i chi baratoi'r cofnodion ar yr adeg pan fo'r digwyddiadau yr ydych yn eu cofnodi yn digwydd, neu cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny.

- 53** Os byddwch yn rhannu gwybodaeth, rhaid i chi gofnodi hyn yng nghofnodion y plentyn neu'r person ifanc. Os byddwch yn rhannu gwybodaeth am aelodau teulu y plentyn neu'r person ifanc, dylech gynnwys hyn yn eu cofnodion os oes modd i chi droi atynt. Dylech gynnwys manylion y wybodaeth y gwnaethoch ei rhannu, pwy y gwnaethoch ei rhannu gyda nhw a pham. Yn ogystal, dylech nodi a roddwyd caniatâd ac os felly, pwy roddodd y caniatâd.
- 54** Os byddwch yn rhannu gwybodaeth gyfrinachol heb sicrhau caniatâd, rhaid i chi gofnodi'r rhesymau dros eich penderfyniad. Yn ogystal, dylech gofnodi unrhyw gamau y gwnaethoch eu cymryd er mwyn ceisio cael caniatâd neu'ch rhesymau dros beidio gwneud hynny, a manylion unrhyw gyngor a gawsoch.
- 55** Ar ôl cael cyngor, os byddwch yn penderfynu peidio rhannu gwybodaeth, rhaid i chi fod yn barod i gyfiawnhau'r penderfyniad hwnnw. Rhaid i chi gofnodi'ch penderfyniad a'ch rhesymau dros beidio rhannu gwybodaeth.
- 56** Caiff cofnodion meddygol eu paratoi er mwyn cynorthwyo gofal diogel ac effeithiol, ond mae modd eu defnyddio at ddibenion eraill. Er enghraifft, mae modd eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau ynghylch diogelwch neu les plentyn neu berson ifanc, oherwydd eu bod yn gallu helpu i greu darlun dros gyfnod o amser. Yn ogystal, mae modd eu defnyddio fel tystiolaeth mewn llys. Mae'n arbennig o bwysig bod cofnodion sy'n ymwneud gyda chamdriniaeth neu esgeulustod posibl plentyn neu berson ifanc yn llawn, yn fanwl, yn cael eu dyddio a'u hamseru, a'u bod yn gwahaniaethu rhwng canfyddiadau clinigol, eich safbwyntiau a'r wybodaeth a ddarparir gan eraill. Dylech gofnodi unrhyw ansicrwydd parhaus ynghylch perygl camdriniaeth neu

esgeulustod i blentyn neu berson ifanc a allai fod yn berthnasol os bydd yn cael ei chyfuno gyda gwybodaeth arall am y plentyn neu'r person ifanc neu eu teulu, gan wneud hynny mewn ffordd eglur.

- 57** Os na cheir digon o dystiolaeth er mwyn cefnogi'ch pryderon bod plentyn neu berson ifanc yn cael eu cam-drin neu'n cael eu hesgeuluso, neu os bydd y dystiolaeth yn dangos nad yw'ch pryderon yn gywir, dylech gofnodi hyn mewn ffordd eglur yng nghofnod meddygol y plentyn neu'r person ifanc ac yng nghofnodion eu rhieni. Dylech esbonio i'r plentyn neu'r person ifanc a'u rhieni y rheswm pam y bydd gwybodaeth am y digwyddiadau hyn yn aros yn eu cofnodion meddygol.

Storio cofnodion a mynediad at gofnodion

- 58** Dylech storio gwybodaeth neu gofnodion gan sefydliadau eraill, megis cofnodion cynadleddau amddiffyn plant, gyda chofnod meddygol y plentyn neu'r person ifanc, neu sicrhau y bydd y wybodaeth hon ar gael i glinigwyr a fydd yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb dros ofal y plentyn neu'r person ifanc. Os byddwch yn darparu gofal ar gyfer sawl aelod o'r teulu, dylech gynnwys gwybodaeth am berthnasoedd teuluol yn eu cofnodion meddygol, neu gysylltiadau rhwng cofnodion plentyn neu berson ifanc a'u rhieni, brodyr a chwiorydd neu bobl eraill y maent yn cael cyswllt agos gyda nhw.

- 59** Mae gan gleifion, gan gynnwys plant a phobl ifanc, hawl gyfreithiol i weld eu cofnodion meddygol eu hunain, oni bai y byddai hyn yn debygol o achosi niwed difrifol i'w hiechyd corfforol neu feddyliol neu i ieuchyd corfforol neu feddyliol rhywun arall. Gall rhiant weld cofnodion meddygol eu plentyn os bydd y plentyn neu'r person ifanc yn rhoi eu caniatâd, neu os na fyddant yn meddu ar alluedd i roi eu caniatâd, ac nad yw hyn yn mynd yn groes i fudd pennaf y plentyn. Am ragor o gyngor, gweler paragraffau 53–55 *0–18 oed: arweiniad i bob meddyg*.⁵
- 60** Os ydych yn gyfrifol am storio a chael gwared ar gofnodion meddygol, rhaid i chi sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn unol ag arweiniad swyddogol ynghylch rheoli cofnodion, gan gynnwys yr amserlenni cadw a gyhoeddir gan adrannau ieuchyd y DU. Mae hyn yn berthnasol os ydych yn gweithio yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) neu beidio.*

* Am gyngor ynghylch storio a gwaredu cofnodion sy'n cael eu paratoi fel rhan o ofal claf, gweler *Records management: NHS code of practice*,²⁰ *Records management: NHS code of practice (Scotland)*,²¹ *Cylchlythyr Iechyd Cymru*,²² a *Good management, good records*.²³

Archwiliadau amddiffyn plant

Pwyntiau allweddol

- Dylech sicrhau caniatâd neu awdurdod cyfreithiol arall er mwyn cynnal archwiliad amddiffyn plant.
- Dylech sicrhau bod yr unigolyn sy'n rhoi'r caniatâd yn deall diben yr archwiliad, yr hyn y bydd yn ei gynnwys a sut y gallai canlyniadau'r archwiliad gael eu defnyddio.
- Dylech barchu penderfyniad plentyn neu berson ifanc i wrthod archwiliad.
- Dylech osgoi ail-gynnal archwiliadau o blentyn neu berson ifanc.

Cynnal archwiliad amddiffyn plant

61 Mae'r arweiniad hwn yn cynnig cyngor penodol am archwiliadau amddiffyn plant. Cynhelir archwiliad amddiffyn plant er mwyn edrych am arwyddion bod plentyn neu berson ifanc wedi cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Mae hwn yn wahanol i archwiliad clinigol, sy'n ceisio pennu beth sydd yn bod ar y plentyn neu'r person ifanc, a pha driniaeth y bydd ei hangen. Rydym yn rhoi arweiniad ynghylch sicrhau caniatâd ar gyfer archwiliadau clinigol, ymchwiliadau neu driniaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn *0–18 oed: arweiniad i bob meddyg*.⁵

62 Cyn cynnal archwiliad amddiffyn plant, rhaid i chi fod yn fodlon bod angen cyflawni archwiliad o'r fath a bod hynny yn briodol dan yr amgylchiadau. Dylech fod yn eglur ynghylch yr hyn y dylai'r archwiliad ei gyflawni, ac a yw'r canlyniad yn debygol o effeithio ar y camau gweithredu arfaethedig. Dylech ystyried rhoi'r dewis i'r plentyn neu'r person ifanc o gael oedolyn arall yn bresennol yn ystod yr archwiliad (gallai hwn/hon fod yn rhiant neu'n warchodwr annibynnol, yn unol â'r hyn sy'n briodol).^{*} Rhaid i chi osgoi ail-gynnal archwiliadau, oherwydd y gallai'r rhain fod yn niweidiol i'r plentyn neu'r person ifanc.

Gofyn am ganiatâd

63 Mae angen i chi sicrhau caniatâd neu awdurdod cyfreithiol arall er mwyn cynnal unrhyw archwiliad amddiffyn plant, gan gynnwys asesiad seiciatrig neu seicolegol. Mae modd i chi gael caniatâd neu awdurdod gan:

- a** blentyn neu berson ifanc sy'n meddu ar yr aeddfedrwydd a'r ddealltwriaeth i wneud y penderfyniad[†]
- b** rhywun y mae ganddynt gyfrifoldeb rhiant os na fydd y plentyn neu'r person ifanc yn meddu ar y galluedd i roi caniatâd (fel arfer, mae'n ddigon eich bod yn sicrhau caniatâd gan un person sy'n meddu ar gyfrifoldeb rhiant)
- c** y llysoedd – er enghraifft, y llysoedd teulu neu'r Uchel Lys.

^{*} Gweler ein harweiniad ynghylch cynnal terfynau.²⁴

[†] Gweler atodiad 1 yr arweiniad hwn am gyngor ynghylch asesu galluedd.

-
- 64** Rhaid i chi fod yn fodlon bod yr unigolyn sy'n rhoi caniatâd yn deall diben yr archwiliad a'r hyn y bydd yn ei gynnwys. Mae hyn yn cynnwys a fydd ffotograffau neu ddelweddau eraill yn cael eu cymryd a sut y gallai canlyniadau'r archwiliad gael eu defnyddio – er enghraifft, fel tystiolaeth mewn llys.^{*,28} Rhaid i chi esbonio i'r unigolyn bod ganddynt yr hawl i wrthod rhoi eu caniatâd, a'r hyn a allai ddigwydd os byddant yn gwneud hynny. Rhaid i chi gofnodi'r drafodaeth yng nghofnod meddygol y plentyn neu'r person ifanc.
- 65** Os bydd yr heddlu neu asiantaeth arall yn dweud wrthyhch bod unigolyn gyda chyfrifoldeb rhiant wedi rhoi eu caniatâd, dylech sicrhau bod yr unigolyn wedi cael y wybodaeth a ddisgrifiwyd ym mharagraff 64.
- 66** Rhaid i chi gadw at amodau'r caniatâd. Er enghraifft, os bydd rhywun wedi rhoi eu caniatâd i ddelweddau gael eu cymryd at ddibenion fforensg, ni ddylech ddefnyddio'r delweddau at ddibenion eraill – megis addysg neu hyfforddiant – oni bai y byddwch yn cael caniatâd ar wahân i wneud hyn.
- 67** Nodir cyngor ynghylch profi plant a phobl ifanc am glefyd trosglwyddadwy difrifol ym mharagraffau 12–16 ein harweiniad atodol *Cyfrinachedd: datgelu gwybodaeth am glefydau trosglwyddadwy difrifol*.^{†, 30}

* Yr unig adeg y bydd modd gwneud recordiadau cudd (recordiadau a wneir heb wybodaeth neu ganiatâd y claf) yw mewn amgylchiadau arbennig. I gael cyngor a gwybodaeth, gweler ein harweiniad *Gwneud a defnyddio recordiadau sain a gweledol o gleifion*,²⁵ deddfau cyfreithiol perthnasol,^{26, 27} a *Safeguarding children and young people: roles and competences for health care staff*.⁸

† Yn ogystal, gweler y canllawiau ynghylch cynnal profion HIV ar blant y cadarnhawyd bod eu rhieni wedi cael eu heintio gyda HIV neu y ceir amheuaeth eu bod wedi cael eu heintio gyda HIV.²⁹

Pan na fydd caniatâd yn cael ei roi

- 68** Os bydd plentyn neu berson ifanc sy'n meddu ar y galluedd i roi eu caniatâd yn gwrthod archwiliad amddiffyn plant, dylech drafod eu safbwyntiau a'u pryderon ynghylch yr archwiliad gyda nhw, neu'r hyn a allai ddigwydd ar ôl hynny. Ond, rhaid i chi barchu eu penderfyniad, hyd yn oed os allai hyn effeithio ar ansawdd y dystiolaeth fforensig sydd ar gael. Mae modd i blant neu bobl ifanc sy'n cael y cymorth a'r wybodaeth y mae angen iddynt ei chael, ac sy'n cael gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain, newid eu penderfyniad yn nes ymlaen.
- 69** Weithiau, efallai y bydd plentyn neu berson ifanc yn gwrthod rhoi eu caniatâd oherwydd bod arnynt ofn yr unigolyn sy'n eu cam-drin neu oherwydd eu bod dan bwysau i wrthod. Os byddwch yn amau hyn, dylech ystyried risg niwed i'r plentyn neu'r person ifanc, a thrafod eich pryderon gyda'ch gweithiwr proffesiynol penodol neu ddynodedig neu'r clinigydd arweiniol, neu os na fyddant ar gael, gyda chydweithiwr profiadol. Os ydych yn pryderu ynghylch diogelwch neu les y plentyn neu'r person ifanc, rhaid i chi ddilyn y cyngor a nodir ym mharagraffau 32-38.
- 70** Os bydd plentyn neu berson ifanc yn gwrthod neu os bydd eu rhieni yn gwrthod rhoi eu caniatâd i archwiliad amddiffyn plant, y mae'n angenrheidiol yn eich barn chi, ac os ydych o'r farn bod y plentyn neu'r person ifanc mewn perygl o ddioddef niwed yn syth, dylech gysylltu â'r heddlu neu wasanaethau plant yr awdurdod lleol, a fydd yn cymryd camau i'w diogelu efallai. Os byddwch yn barnu na cheir perygl y bydd niwed yn digwydd ar unwaith, dylech ddilyn y cyngor a nodwyd ym mharagraffau 32-38.

Hyfforddiant a datblygu

Pwyntiau allweddol

- Dylech wybod yr hyn i'w wneud os ydych yn pryderu bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl o ddioddef neu yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod.
- Dylech gynnal y wybodaeth a'r sgiliau er mwyn diogelu plant a phobl ifanc ar lefel sy'n briodol i'ch rôl.

Cynnal eich gwybodaeth a'ch sgiliau

- 71** Rhaid i chi ddatblygu a chynnal y wybodaeth a'r sgiliau er mwyn diogelu plant a phobl ifanc ar lefel sy'n briodol i'ch rôl. Darparir gwybodaeth am lefel yr hyfforddiant amddiffyn plant sy'n angenrheidiol ar gyfer gwahanol rolau, a pha mor aml y dylai meddygon gael yr hyfforddiant hwnnw, yn nogfen *Safeguarding children and young people: roles and competences for health care staff*.⁸ Yn ogystal, dylech gymryd rhan mewn hyfforddiant ynghylch sut i gyfathrebu mewn ffordd effeithiol gydag ystod eang o grwpiau rhieni, plant a phobl ifanc.
- 72** Os ydych yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc, dylech fyfyrto am eich perfformiad wrth ddiogelu plant a phobl ifanc yn rheolaidd, ynghyd â'ch cyfraniadau i unrhyw dimau yr ydych yn gweithio ynddynt. Dylech ofyn am a bod yn barod i weithredu mewn perthynas ag adborth yn dilyn gwaith archwilio, trafod achos, adolygu gan gymheiriaid a goruchwyliaeth. Dylech gysylltu â'ch gweithiwr proffesiynol penodol neu ddynodedig neu'r clinigydd arweiniol i gael cyngor ynghylch cyfleoedd i drafod a dysgu gan achosion amddiffyn plant yn eich ardal leol.

73 Os ydych yn gweithio gydag oedolion, dylech sicrhau bod modd i chi nodi'r ffactorau risg yn eu hamgylchedd, y gallent godi pryderon ynghylch camdriniaeth neu esgeulustod, ac a yw cleifion yn peri risg i blant neu bobl ifanc sy'n agos iddynt.

Dysgu wrth eraill

74 Os bydd cyfleoedd ar gael, dylech ddysgu wrth gydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill – er enghraifft, trwy gymryd rhan mewn hyfforddiant aml-ddisgyblaethol neu rannu arfer gorau a sgiliau. Yn ogystal, dylech geisio datblygu'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o faterion y mae grwpiau penodol o bobl yn eu hwynebu, megis anghenion cyfathrebu gwahanol grwpiau o bobl anabl.

75 Os ydych yn feddyg penodol neu ddynodedig, yn glinigydd arweiniol neu'n gyfarwyddwr meddygol mewn ymddiriedolaeth gofal sylfaenol, grŵp comisiynu clinigol neu leoliad arall, dylech gynorthwyo'ch cydweithwyr i nodi cyfleoedd hyfforddi a datblygu.

Meddygon yn rhoi tystiolaeth mewn llys

Pwyntiau allweddol

- Mae dyletswydd pennaf pob tyst i'r llys.
- Dylech roi tystiolaeth sy'n ddiuedd, sy'n onest a heb fod yn gamarweiniol.
- Dim ond tystiolaeth a safbwyntiau ynghylch materion o fewn eich cymhwysedd proffesiynol y dylech eu rhoi.
- Dylech weithio o fewn yr amserlenni a bennwyd gan y llys.

Dyletswyddau pob tyst

- 76** Os ydych yn dyst arbenigol neu'n dyst ffeithiol, mae gennych ddyletswydd i'r llys ac mae'r ddyletswydd hon yn drech nag unrhyw rywmedigaeth i'r unigolyn sy'n eich cyfarwyddo neu sy'n eich talu.^{31, 32, 33, 34, 35, 36} Mae hyn yn golygu bod gennych ddyletswydd i weithredu mewn ffordd annibynnol ac i fod yn onest, yn ddibynadwy, yn wrthrychol ac yn ddiuedd. Ni ddylech ganiatáu i'ch safbwyntiau* am unigolyn effeithio ar y cyngor neu'r dystiolaeth y byddwch yn ei rhoi.
- 77** Rhaid i chi ddeall eich rôl fel tyst trwy gydol proses y llys. Rhaid i chi gydwethredu gyda gweithgarwch rheoli achos, gan sicrhau eich bod yn cydymffurfio gyda'r amserlenni er mwyn paratoi adroddiadau a mynychu cynadleddau, cyfarfodydd neu wrandawiadau llys.

* Mae hyn yn cynnwys eich safbwyntiau am ffordd o fyw claf, eu diwylliant neu eu statws cymdeithasol neu economaidd, yn ogystal â'r nodweddion sy'n cael eu diogelu gan ddeddfwriaeth: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gredo, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

- 78** Pan fyddwch yn rhoi tystiolaeth neu'n ysgrifennu adroddiadau, rhaid i chi gyfyngu'ch datganiadau i feysydd y mae gennych wybodaeth berthnasol amdanynt neu brofiad uniongyrchol ynddynt.
- 79** Rhaid i chi sicrhau bod unrhyw adroddiad y byddwch yn ei ysgrifennu neu dystiolaeth y byddwch yn ei rhoi, yn fanwl, ac nad yw'n gamarweiniol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi gymryd camau rhesymol er mwyn cadarnhau cywirdeb unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei rhoi, gan sicrhau eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.
- 80** Efallai y bydd pobl nad oes ganddynt gefndir meddygol yn dibynnu ar eich cyngor a'ch tystiolaeth er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau. Pan fo modd gwneud hynny heb gamarwain unrhyw un, dylech ddefnyddio iaith a therminoleg y bydd pobl nad ydynt yn meddu ar gymhwyster meddygol yn ei deall. Dylech esbonio unrhyw fyfoddau a therminoleg feddygol neu derminoleg dechnegol arall y byddwch yn ei defnyddio. Mae diagramau sy'n cynnwys labeli esboniadol yn gallu bod yn ddefnyddiol.

Rhoi tystiolaeth fel tyst ffeithiol (tyst proffesiynol)

- 81** Mae tystion ffeithiol (a elwir yn dystion proffesiynol hefyd) yn darparu tystiolaeth broffesiynol am eu canfyddiadau clinigol, eu harsylwadau a'u camau gweithredu, a'r rhesymau drostynt.
- 82** Fel tyst ffeithiol, dylai'ch tystiolaeth ysgrifenedig a llafar fod yn eglur ac yn gryno, ac mae'n rhaid iddi gael ei seilio ar gofnodion clinigol a nodiadau a wnaethpwyd ar yr adeg berthnasol. Gallwch gynnwys rhywfaint o farn am y canfyddiadau – er enghraifft, ynghylch sut yr

achoswyd anaf i blentyn neu berson ifanc – ond dylech nodi'n eglur yr hyn sy'n dystiolaeth ffeithiol a'r hyn sy'n cyfateb â'ch barn chi, ar sail eich barn a'ch profiad proffesiynol.

Rhoi tystiolaeth fel tyst arbenigol

- 83** Rôl tyst arbenigol yw helpu'r llys gyda materion arbenigol neu dechnegol, y maent o fewn arbenigedd y tyst. Mae llysoedd o'r farn bod tystiolaeth meddygon arbenigol yn hynod o bwysig yn ystod achosion barnwrol. Mae tyst arbenigol yn gallu ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys adroddiadau a datganiadau'r amddiffyniad, cyn ffurfio barn a'i chyfleu i'r llys.
- 84** Rhaid i chi sicrhau eich bod yn deall yn union pa gwestiynau y gofynnir i chi eu hateb. Os na fydd y cyfarwyddiadau a roddir i chi yn eglur, dylech ofyn i'r cyfreithiwr sy'n cyfarwyddo i esbonio. Os na fydd y cyfarwyddiadau yn eglur o hyd, ni ddylech gynnig barn neu gyngor arbenigol.
- 85** Dim ond am faterion y maent o fewn eich cymhwysedd proffesiynol y dylech ddarparu tystiolaeth a safbwyntiau arbenigol amdanynt.* Os na fydd cwestiwn neu fater penodol o fewn eich maes arbenigol, dylech wrthod ateb neu ateb hyd eithaf eich gallu, ond dylech nodi'n eglur eich bod o'r farn bod y mater y tu hwnt i'ch cymhwysedd.³⁷

* Bydd yr un egwyddor yn berthnasol pan fydd meddyg yn cyflawni rôl ac eithrio rôl tyst – er enghraifft, fel cyngorydd mewn achos.

- 86** Rhaid i chi roi barn wrthrychol a diduedd, ac mae'n rhaid eich bod yn gallu datgan y ffeithiau neu'r tybiaethau y seiliwyd y farn arnynt. Os ceir amrediad o safbwyntiau am fater, dylech gynnig crynodeb o amrediad y safbwyntiau, gan esbonio sut y gwnaethoch ffurfio'ch barn. Os na fydd gennych ddigon o wybodaeth er mwyn eich galluogi i ffurfio casgliad ynghylch pwynt penodol, neu os yw'ch barn yn amodol (er enghraifft, o ganlyniad i dystiolaeth sy'n gwrthdaro), rhaid i chi nodi hynny yn eglur.*
- 87** Os gofynnir i chi roi barn am unigolyn heb gael y cyfle i ymgynghori gyda nhw neu eu harchwilio, dylech esbonio unrhyw gyfyngiadau y gallai hyn eu rhoi ar eich barn. Dylai fod modd i chi gyfiawnhau'r penderfyniad i gynnig eich barn.
- 88** Os byddwch yn newid eich safbwynt am unrhyw fater perthnasol ar unrhyw adeg, bydd gennych ddyletswydd i sicrhau bod y cyfreithiwr sy'n eich cyfarwyddo chi, y parti arall a'r barnwr, yn ymwybodol o hyn yn ddi-oed. Dylech ddweud wrth eich cyfreithiwr cyfarwyddol, a ddylai ddweud wrth y bobl arall y bydd angen iddynt gael gwybod. Os na fydd y cyfreithiwr yn gwneud hyn, dylech ddweud wrth y llys am y newid yn eich safbwynt. Os nad ydych yn siŵr am yr hyn i'w wneud, dylech holi'r llys neu gael cyngor cyfreithiol.
- 89** Rhaid i chi barchu sgiliau a chyfraniadau gweithwyr proffesiynol eraill sy'n rhoi tystiolaeth arbenigol, gan beidio gadael i'w hymddygiad effeithio ar eich barn broffesiynol.

* Gweler Oldham MBC v GW & Ors [2007] EWHC 136 (Fam). Mae'r dyfarniad ar gael trwy droi at www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Fam/2007/136.html.

Nodiadau a chofnodion

90 Rhaid i chi wneud nodiadau llawn a manwl am gyfarfodydd neu gyfweiliadau gyda'r plentyn neu'r person ifanc ac unigolion eraill sy'n cael cyswllt gyda'r achos ar yr adeg pan fo digwyddiad yn digwydd neu cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny. Rhaid i unrhyw nodiadau neu adroddiadau y byddwch yn eu gwneud gael eu hysgrifennu mewn ffordd deg a diduedd.

Bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf

91 Rhaid chi sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf yn eich maes gwaith arbenigol. Rhaid i chi ddeall a chydymffurfio gyda'r gyfraith a'r codau ymarfer sy'n effeithio ar eich rôl fel tyst arbenigol. Yn arbennig, dylech sicrhau eich bod yn deall:

- a** sut i ysgrifennu adroddiad sy'n dilyn y gweithdrefnau a nodir gan y llysoedd
- b** sut i roi tystiolaeth lafar.

92 Os oes gennych chi arbenigedd a phrofiad o gyflawni rôl tyst arbenigol, dylech fod yn fodlon rhannu eich gwybodaeth gyda chydweithwyr y gallent gael eu galw i roi tystiolaeth mewn llys, er mwyn helpu i feithrin eu hyder a'u parodrwydd i roi tystiolaeth yn y dyfodol.

Diogelwch gwybodaeth

93 Rhaid i chi gymryd yr holl gamau rhesymol i ddarllen yr holl bapurau perthnasol ac i'w cadw yn ddiogel tra byddant yn eich meddiant.

- 94** Os byddwch yn cael gwybodaeth am unigolyn ac os bydd gennych reswm dros gredu nad ydynt wedi rhoi eu caniatâd i'r wybodaeth gael ei rhannu, dylech ddychwelyd y wybodaeth i'r unigolyn sy'n eich cyfarwyddo, a cheisio cadarnhad bod caniatâd wedi cael ei roi.
- 95** Ni ddylech ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol i unrhyw un nad ydynt yn ymwneud gyda'r achos llys, oni bai bod un o'r canlynol yn wir.
- a** Mae'r unigolyn y mae'r wybodaeth yn ymwneud â nhw yn rhoi eu caniatâd (ac ni cheir cyfyngiadau eraill ynghylch rhannu'r wybodaeth).
 - b** Rhaid i chi wneud hynny yn unol â'r gyfraith.
 - c** Byddwch yn cael gorchymyn i wneud hynny gan lys neu driwlynlys.
 - d** Mae'ch dyletswydd pennaf i'r llys a gweinyddiaeth cyfiawnder yn golygu bod yn rhaid i chi ddatgelu'r wybodaeth.

Gwrthdaro rhwng buddiannau

- 96** Os ceir gwrthdaro posibl rhwng buddiannau – er enghraifft, rydych wedi cael cyswllt proffesiynol neu bersonol gydag un o'r bobl sy'n gysylltiedig gyda'r achos yn y gorffennol, neu os oedd gennych fudd personol yn yr achos – rhaid i chi sicrhau bod y bobl sy'n eich cyfarwyddo, y parti arall a'r barnwr yn ymwybodol o hyn ar fyrder. Dylech ddilyn y broses er mwyn cyfathrebu gyda'r llys a nodir ym mharagraff 88 er mwyn gwneud hyn. Mae modd i chi barhau i gyflawni rôl tyst arbenigol, ond dim ond os bydd y llys yn penderfynu na fydd y gwrthdaro rhwng buddiannau yn effeithio ar yr achos.

Atodiad 1 – Asesu galluedd plentyn neu berson ifanc

- 1** Ar gyfer unrhyw ymchwiliadau neu driniaethau yr ydych yn bwriadu eu cynnal, rhaid i chi benderfynu a oes modd i blentyn neu berson ifanc ddeall yr hyn a fydd yn digwydd, pam bod angen i chi gynnal yr ymchwiliad neu'r driniaeth, a'r canlyniadau posibl. Yn ogystal, rhaid eu bod yn deall canlyniadau peidio cael yr ymchwiliad neu'r driniaeth. Gallant roi eu caniatâd i'r ymchwiliad neu'r driniaeth, dim ond os bydd modd iddynt ddeall, cadw, defnyddio a phwyso a mesur y wybodaeth hon, ac esbonio'u penderfyniad i eraill. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi sicrhau bod plentyn neu berson ifanc wedi cael yr holl wybodaeth berthnasol a'i bod wedi cael ei thrafod gyda nhw mewn ffordd drylwyr cyn penderfynu a ydynt yn meddu ar y galluedd i roi eu caniatâd i'r ymchwiliad neu'r driniaeth neu beidio.

- 2** Mae'r galluedd i roi caniatâd yn dibynnu'n fwy ar allu plentyn neu berson ifanc i ddeall ac i bwysu a mesur y dewisiadau, yn hytrach na'u hoedran. Wrth asesu eu galluedd i roi caniatâd, dylech gofio'r ddau bwynt canlynol.
 - a** Mae modd i chi gymryd bod person ifanc yn meddu ar y galluedd i roi eu caniatâd pan fyddant yn 16 oed.

 - b** Efallai y bydd person ifanc dan 16 oed yn meddu ar y galluedd i roi eu caniatâd, gan ddibynnu ar eu haeddfedrwydd a'u gallu i ddeall yr hyn a fydd yn digwydd.*

* Mae'r gyfraith sy'n ymwneud gyda chaniatâd yn wahanol ar draws y DU.^{38, 39, 40, 41, 42, 43}

- 3** Mae'n bwysig eich bod yn asesu aeddfedrwydd a dealltwriaeth pob plentyn neu berson ifanc, gan ystyried cymhlethdod a phwysigrwydd y penderfyniad y mae angen ei wneud. Dylech gofio na fydd plentyn neu berson ifanc sy'n meddu ar y galluedd i roi eu caniatâd i driniaeth syml ac sy'n gymharol rhydd rhag risg, yn meddu o reidrwydd ar y galluedd i roi eu caniatâd i driniaeth gymhleth sy'n cynnwys risgiau uchel neu ganlyniadau difrifol. Yn ogystal, mae modd i ddatblygiad corfforol ac emosïynol plentyn neu berson ifanc effeithio ar eu gallu i roi caniatâd, yn ogystal â newidiadau i'w hiechyd a'u triniaeth.

Atodiad 2 – Aseu budd pennaf

- 1** ‘Budd pennaf’ plentyn neu berson ifanc ddylai fod yr egwyddor ganolog ym mhob penderfyniad a allai effeithio arnynt.⁴⁴ Bydd aseu budd pennaf plentyn neu berson ifanc yn cynnwys yr hyn a ddynodir ar lefel glinigol mewn achos penodol. Yn ogystal, dylech ystyried:
 - a** safbwyntiau’r plentyn neu’r person ifanc, i’r graddau y maent yn gallu eu mynegi, gan gynnwys unrhyw ddewisiadau a fynegwyd ganddynt yn y gorffennol
 - b** safbwyntiau’r rhieni
 - c** safbwyntiau pobl arall sy’n agos i’r plentyn neu’r person ifanc
 - d** credoau a gwerthoedd diwylliannol, credoau a gwerthoedd crefyddol a chredoau a gwerthoedd eraill y plentyn neu’r person ifanc neu eu rhieni
 - e** safbwyntiau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy’n ymwneud gyda darparu gofal i’r plentyn neu’r person ifanc, ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill y mae ganddynt ddiddordeb yn eu lles
 - f** pa ddewis, os oes mwy nag un, a fydd yn cyfyngu leiaf ar ddewisiadau’r plentyn neu’r person ifanc yn y dyfodol.

- 2** Nid yw hon yn rhestr gyflawn. Bydd y pwysigrwydd y byddwch yn ei neilltuo i bob pwynt yn dibynnu ar yr amgylchiadau, a dylech ystyried unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Ni ddylech ffurfio unrhyw dybiaethau am fudd pennaf plentyn neu berson ifanc nad oes modd eu cyfiawnhau, ac y maent wedi cael eu seilio ar ffactorau amherthnasol neu wahaniaethol, megis eu hymddygiad, eu hymddangosiad neu eu hanabledd.

Diffiniadau o blant, pobl ifanc a rhieni

Pwy yw plant a phobl ifanc?

Mae'r arweiniad hwn yn ymwneud â phlant a phobl ifanc o'u genedigaeth nes iddynt gael eu pen-blwydd yn 18 oed.

Byddwn yn defnyddio'r term 'plant' er mwyn cyfeirio at blant iau nad ydynt yn meddu ar yr aeddfedrwydd a'r ddealltwriaeth i wneud penderfyniadau pwysig drostynt eu hunain.

Byddwn yn defnyddio'r term 'pobl ifanc' er mwyn cyfeirio at blant hŷn a mwy profiadol, y maent yn fwy tebygol o fod yn gallu gwneud y penderfyniadau hyn drostynt eu hunain.

Mae'r gyfraith yn cymryd y bydd pobl ifanc yn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch eu gofal eu hunain erbyn yr adeg pan fyddant yn 16 oed, er y ceir gwahaniaethau cenedlaethol sy'n ymwneud gyda roi caniatâd ar gyfer ymchwiliadau a thriniaeth. Fodd bynnag, yn fyr, y sefyllfa gyfreithiol o ran roi caniatâd ar gyfer archwiliadau amddiffyn plant neu rannu gwybodaeth sy'n ymwneud gyda phryderon ynghylch amddiffyn plant, yw bod modd i unrhyw blentyn neu berson ifanc roi eu caniatâd ar yr amod eu bod yn meddu ar y galluedd i wneud hynny (gweler atodiad 1 yr arweiniad hwn). Os bydd plentyn neu berson ifanc sy'n meddu ar alluedd yn gwrthod rhoi caniatâd, rhaid i chi barchu eu penderfyniad.

Rhieni a chyfrifoldeb rhiant

Yn yr arweiniad hwn, mae cyfeiriadau at 'rieni' yn golygu pobl y mae ganddynt gyfrifoldeb rhiant a phobl arall y maent yn gofalu am neu'n edrych ar ôl plant neu bobl ifanc. Gallai hyn gynnwys aelodau teuluol eraill neu oedolion y maent yn byw ar yr un aelwyd.

Mae 'unigolyn gyda chyfrifoldeb rhiant' yn golygu rhywun sy'n meddu ar yr hawliau a'r cyfrifoldebau sydd gan rieni yn ôl y gyfraith dros eu plentyn, gan gynnwys yr hawl i roi eu caniatâd iddynt gael triniaeth feddygol, nes yr adeg pan fyddant yn 18 oed yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a nes byddant yn 16 oed yn yr Alban.

Mae gan famau a thadau priod gyfrifoldeb rhiant, yn yr un modd â thadau di-briod plant a gofrestrwyd er 15 Ebrill 2002 yng Ngogledd Iwerddon, er 1 Rhagfyr 2003 yng Nghymru a Lloegr ac er 4 Mai 2006 yn yr Alban, ar yr amod bod y tad yn cael eu henwi ar dystysgrif geni y plentyn.

Nid oes gan dad di-briod, y cofrestrwyd genedigaeth eu plentyn cyn y dyddiadau hyn, neu ar ôl hynny os nad ydynt yn cael eu henwi ar dystysgrif geni y plentyn, yr hawl awtomatig i gael cyfrifoldeb rhiant. Mae modd iddo sicrhau cyfrifoldeb rhiant trwy ailgofrestru genedigaeth, trwy ymrwymo i gytundeb cyfrifoldeb rhiant gyda mam y plentyn neu thrwy sicrhau gorchymyn cyfrifoldeb rhiant gan y llysoedd. Mae modd i lys-rieni priod a phartneriaid sifil cofrestredig sicrhau cyfrifoldeb rhiant yn yr un ffyrdd.

Ni fydd rhieni yn colli cyfrifoldeb rhiant os byddant yn ysgaru. Os bydd plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol dan orchymyn gofal, bydd eu rhieni yn rhannu cyfrifoldeb rhiant gyda'r awdurdod lleol. Os bydd y plentyn mewn gofal gwirfoddol, nid oes gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb rhiant. Bydd rhieni yn colli cyfrifoldeb rhiant os caiff plentyn ei fabwysiadu. Mae modd i orchymyn llys gyfyngu cyfrifoldeb rhiant.

Mae gan rieni sy'n mabwysiadu gyfrifoldeb rhiant, yn yr un modd ag unigolyn a benodir yn warcheidwad arbennig neu'n warcheidwad testamentaidd plentyn, neu unigolyn y rhoddir gorchymyn preswyllo iddynt. Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb rhiant os bydd gorchymyn gofal yn bodoli mewn perthynas â phlentyn.

Efallai y bydd angen i chi sicrhau cyngor cyfreithiol os na fyddwch yn siŵr pwy sy'n meddu ar gyfrifoldeb rhiant dros blentyn.

Yr unig gyfrifoldeb rhiant sy'n parhau nes bydd plentyn yn 18 oed yn yr Alban, yw'r cyfrifoldeb i ddarparu arweiniad i'r plentyn.* Mae'r Ddeddf yn cyfeirio at hawliau a chyfrifoldebau rhiant. Yn yr arweiniad hwn, mae cyfeiriadau at 'gyfrifoldeb rhiant' yn golygu hawliau a chyfrifoldebau rhiant yn yr Alban.

* Gweler adran 1(1)(b)(ii) ac adran 1(2)(b) *Children (Scotland) Act 1995*.

Ffynonellau gwybodaeth ac arweiniad eraill

Cyfraith, arweiniad ac adolygiadau cenedlaethol

Deddf Plant 1989 y mae ar gael trwy droi at
www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/contents

Deddf Plant 2004 y mae ar gael trwy droi at
www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/31/contents

Children (Scotland) Act 1995 y mae ar gael trwy droi at
www.legislation.gov.uk/ukpga/1995/36/contents

Children (Northern Ireland) Order 1995 y mae ar gael trwy droi at
www.legislation.gov.uk/nisi/1995/755/contents

Adran dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd (2013) *Working together to safeguard children: a guide to inter-agency working to safeguard and promote the welfare of children* Llywodraeth EM, y mae ar gael trwy droi at
www.gov.uk/government/publications/working-together-to-safeguard-children

Pwyllgorau Amddiffyn Plant Ardal (2005) *Regional child protection policy and procedures* Pwyllgorau Amddiffyn Plant Ardal, y mae ar gael trwy droi at
www.dhsspsni.gov.uk/acpregionalstrategy.pdf

Llywodraeth yr Alban (2010) *National guidance for child protection in Scotland 2010* Llywodraeth yr Alban, y mae ar gael trwy droi at
www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/334290/0109279.pdf

Munro E (2011) *The Munro review of child protection: final report: a child-centred system* Norwich, Y Llyfrfa, y mae ar gael trwy droi at www.gov.uk/government/collections/munro-review

Pecynnau cymorth a deunydd darllen

Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (2006) *Child protection companion* Llundain, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, y mae ar gael trwy droi at www.rcpch.ac.uk/sites/default/files/asset_library/Health%20Services/ChildProtCompL.pdf

Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (2007) *Child protection reader: recognition and response in child protection* Llundain, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, y mae ar gael trwy droi at <http://www.rcpch.ac.uk/child-health/standards-care/child-protection/publications/child-protection-publications>

Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, Cyfadran Meddygaeth Fforensig a Chyfreithiol (2010) *Guidance for best practice for the management of intimate images that may become evidence in court* Llundain, Cyfadran Meddygaeth Fforensig a Chyfreithiol, y mae ar gael trwy droi at www.rcpch.ac.uk/child-health/standards-care/child-protection/publications/child-protection-publications

Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (2011) *Safeguarding children and young people: a toolkit for General Practice* Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant, y mae ar gael trwy droi at **www.rcgp.org.uk/clinical-and-research/clinical-resources/the-rcgp-nspcc-safeguarding-children-toolkit-for-general-practice.aspx**

Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant ar y cyd gyda Choleg Brenhinol y Ffisigwyr, Llundain a'i Gyfadran Meddygaeth Fforensig a Chyfreithiol (2008) *The physical signs of child sexual abuse: an evidence-based review and guidance for best practice* Llundain, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, y mae ar gael trwy droi at **www.rcpch.ac.uk/csa**

Y sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (2009) *When to suspect child maltreatment* Llundain, Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol, y mae ar gael trwy droi at **www.nice.org.uk/guidance/CG89**

Hyfforddiant

Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, et al (2010) *Safeguarding children and young people: roles and competences for healthcare staff: intercollegiate report* Llundain, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, y mae ar gael trwy droi at **www.rcpch.ac.uk/child-health/standards-care/child-protection/publications/child-protection-publications**

Rhoi tystiolaeth mewn llys

Cymdeithas Feddygol Prydain (2008) *Expert witness guidance* Llundain, Cymdeithas Feddygol Prydain

Y Gwir Anrhydeddus Ustus Wall (2007) *A handbook for expert witnesses in Children Act cases* Bryste, Jordans, 2il rifyn

Gwybodaeth ddefnyddiol sydd ar gael ar-lein

Academi'r Colegau Brenhinol Meddygol

www.aomrc.org.uk

Cyngor Cyfiawnder Sifil

www.judiciary.gov.uk/about-the-judiciary/advisory-bodies/cjc

Cyngor Cyfiawnder Teulu

www.judiciary.gov.uk/about-the-judiciary/advisory-bodies/fjc

Gwasanaeth Eryln y Goron (Llawlyfr datgeliadau)

www.cps.gov.uk/legal/d_to_g/disclosure_manual/

The Scottish Children's Reporter Administration

www.scra.gov.uk

Ffynonellau cyngor a chymorth annibynnol ar gyfer rhieni a theuluoedd

Mae **NSPCC** yn elusen genedlaethol sy'n ymgyrchu ar ran plant a phobl ifanc. Mae gan NSPCC linellau cymorth y mae modd i blant ac oedolion eu ffonio er mwyn cael cyngor a chymorth. Mae modd i blant a phobl ifanc ffonio ChildLine ar 0800 1111. Mae modd i oedolion ffonio 0808 800 5000 i gael help a chyngor.

www.nspcc.org.uk

Mae **Grŵp Hawliau'r Teulu (FRG)** yn cynnig cyngor a chymorth cyfrinachol yn rhad ac am ddim i deuluoedd y mae eu plant yn ymwneud gyda gwasanaethau plant yr awdurdod lleol. Mae modd i deuluoedd ffonio'i wasanaeth cyngor yn rhad ac am ddim ar 0808 801 0366 neu anfon e-bost at **www.frg.org.uk**

Mae **Coram Children's Legal Centre (CCLC)** yn darparu gwybodaeth, cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol yn rhad ac am ddim i blant a phobl ifanc, a'u teuluoedd, ac i ofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Mae modd i deuluoedd ffonio'i gwasanaeth cynghori yn rhad ac am ddim ar 08088 020 008 i gael cyngor cyfreithiol am unrhyw fater.

www.childrenslegalcentre.com

Mae **cymdeithasau'r cyfreithwyr** yn cynnig cyfleusterau chwilio ar y rhyngrwyd er mwyn helpu pobl i ddod o hyd i gyfreithwyr.

Cymru a Lloegr: **www.lawsociety.org.uk**

Yr Alban: **www.lawscot.org.uk**

Gogledd Iwerddon: **www.lawsoc-ni.org**

Mae **Cyngor ar Bopeth** yn sefydliad annibynnol sy'n cynnig cyngor cyfrinachol a diduedd yn rhad ac am ddim am bob mater i unrhyw un. Yn ogystal, mae ei wefan yn cynnwys cyngor a gwybodaeth.

www.citizensadvice.org.uk

Mae **Family Lives** yn elusen genedlaethol sy'n darparu help a chymorth am bob agwedd ar fywyd teuluol. Mae ganddi wasanaeth cyfrinachol o'r enw Parentline (0808 800 2222), y mae modd i rieni ei ffonio yn rhad ac am ddim o linellau tir ac o'r rhan fwyaf o ffonau symudol er mwyn cael gwybodaeth, cyngor, arweiniad a chymorth am unrhyw agwedd ar rianta a bywyd teuluol.

www.familylives.org.uk

Mae **Home-Start UK** yn elusen genedlaethol sy'n cynorthwyo plant a theuluoedd trwy gyfrwng rhwydwaith o wirfoddolwyr.

www.home-start.org.uk

Mae **Family Action** yn elusen sy'n cynnig cymorth ymarferol, emosiynol ac ariannol i deuluoedd difreintiedig ac y maent yn ynysig yn gymdeithasol.

www.family-action.org.uk

Cyfeiriadau

- 1 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* Llundain, Cyngor Meddygol Cyffredinol, paragraffau 27, y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/gmp**
- 2 Adran dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd (2013) *Working together to safeguard children: a guide to inter-agency working to safeguard and promote the welfare of children*, Llywodraeth EM, y mae ar gael trwy droi at **www.gov.uk/government/publications/working-together-to-secure-children**
- 3 Llywodraeth yr Alban (2010) *National guidance for child protection in Scotland 2010* Caeredin, Llywodraeth yr Alban, y mae ar gael trwy droi at **www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/334290/0109279.pdf**
- 4 Pwyllgorau Amddiffyn Plant Ardal (2005) *Regional child protection policy and procedures* Pwyllgorau Amddiffyn Plant Ardal, y mae ar gael trwy droi at **www.dhsspsni.gov.uk/acpregionalstrategy.pdf**
- 5 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2007) *0–18 oed: arweiniad i bob meddyg* Llundain, Cyngor Meddygol Cyffredinol, y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/0-18**
- 6 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2009) *Cyfrinachedd* Llundain, Cyngor Meddygol Cyffredinol, y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/confidentiality**
- 7 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2008) *Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd* Llundain, Cyngor Meddygol Cyffredinol, y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/consent**

- 8 Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, et al (2010) *Safeguarding children and young people: roles and competences for healthcare staff: intercollegiate report* Llundain, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, y mae ar gael trwy droi at [**www.rcpch.ac.uk/safeguarding**](http://www.rcpch.ac.uk/safeguarding)
- 9 Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (2009) *When to suspect child maltreatment* Llundain, Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol, y mae ar gael trwy droi at [**www.nice.org.uk/guidance/CG89**](http://www.nice.org.uk/guidance/CG89)
- 10 Munro E (2011) *The Munro review of child protection: final report: a child-centred system* Norwich, Y Llyfrfa, y mae ar gael trwy droi at [**www.gov.uk/government/collections/munro-review**](http://www.gov.uk/government/collections/munro-review)
- 11 Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant ar y cyd gyda Choleg Brenhinol y Ffisigwyr, Llundain a'i Gyfadran Meddygaeth Fforensig a Chyfreithiol (2008) *The physical signs of child sexual abuse: an evidence-based review and guidance for best practice* Llundain, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, y mae ar gael trwy droi at [**www.rcpch.ac.uk/csa**](http://www.rcpch.ac.uk/csa)
- 12 Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (2006) *Child protection companion* Llundain, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, y mae ar gael trwy droi at [**www.rcpch.ac.uk/child-health/standards-care/child-protection/publications/child-protection-publications**](http://www.rcpch.ac.uk/child-health/standards-care/child-protection/publications/child-protection-publications)

- 13 Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (2007) *Child protection reader: recognition and response in child protection* Llundain, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, y mae ar gael trwy droi at **www.rcpch.ac.uk/child-health/standards-care/child-protection/publications/child-protection-publications**
- 14 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Personal beliefs and medical practice* Llundain, Cyngor Meddygol Cyffredinol, paragraffau 18–23, y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/guidance/ethical_guidance/21171.asp**
- 15 *Deddf Enwaedu Benywod (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) 2003*
- 16 *Prohibition of Female Genital Mutilation (Scotland) Act 2005*
- 17 Mae Llywodraeth EM wedi cyhoeddi dwy ddogfen arweiniad ynghylch anffurfio organau cenhedlu benywod: *Multi agency practice guidelines: female genital mutilation*, y mae ar gael trwy droi at **www.gov.uk/government/publications/female-genital-mutilationguidelines** a *Mandatory reporting of female genital mutilation: procedural information*, y mae ar gael trwy droi at **www.gov.uk/government/publications/mandatory-reporting-of-female-genital-mutilationprocedural-information**
- 18 Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi cyhoeddi canllawiau arfer aml-asiantaeth am anffurfio organau cenhedlu benywod, y maent ar gael trwy droi at **www.dfpni.gov.uk/multi-agency-practice-guidelines-on-female-genital-mutilation.pdf**

- 19 Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi gwybodaeth ac adnoddau ynghylch anffurfio organau cenedlu benywod, sydd ar gael trwy droi at www.gov.scot/Topics/People/Equality/violence-women/FGM
- 20 Adran Iechyd (2006) *Records management: NHS code of practice* Llundain, Adran Iechyd, y mae ar gael trwy droi at www.gov.uk/government/publications/records-management-nhs-code-of-practice
- 21 Llywodraeth yr Alban (2008) *Records management: NHS code of practice* (Yr Alban) Caeredin, Llywodraeth yr Alban, y mae ar gael trwy droi at www.scotland.gov.uk/Publications/2008/07/01082955/0
- 22 Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2000) *Cylchlythyr iechyd Cymru (2000) 71* Caerdydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y mae ar gael trwy droi at www.wales.nhs.uk/sites3/documents/950/WHC_2000_71.pdf
- 23 Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd, Gogledd Iwerddon (2005) *Good management, good records* Belfast, Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd, Gogledd Iwerddon, y mae ar gael trwy droi at www.dhsspsni.gov.uk/gmgr
- 24 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Archwiliadau personol a gwarchodwyr* Llundain, Cyngor Meddygol Cyffredinol, y mae ar gael trwy droi at www.gmc-uk.org/guidance/ethical_guidance/21168.asp

- 25 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2011) *Creu a defnyddio recordiadau sain a gweledol o gleifion* Llundain, Cyngor Meddygol Cyffredinol, y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/recordings**
- 26 *Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000* adrannau 28–30
- 27 *Regulation of Investigatory Powers (Scotland) Act 2000* adrannau 5–8
- 28 Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, Cyfadran Meddygaeth Fforensig a Chyfreithiol (2010) *Guidance for best practice for the management of intimate images that may become evidence in court* Llundain, Cyfadran Meddygaeth Fforensig a Chyfreithiol, y mae ar gael trwy droi at **www.rcpch.ac.uk/child-health/standards-care/child-protection/publications/child-protection-publications**
- 29 Children’s HIV Association (2009) *HIV testing guidelines for children of confirmed or suspected HIV-positive parents* Children’s HIV Association, y mae ar gael trwy droi at **chiva.org.uk/files/guidelines/hiv-testing09.pdf**
- 30 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2009) *Cyfrinachedd: datgelu gwybodaeth am glefydau trosglwyddadwy difrifol* Llundain, Cyngor Meddygol Cyffredinol, y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/guidance/ethical_guidance/confidentiality.asp**
- 31 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder *Civil Procedure Rules* Llundain, Y Llyfrfa, rheol 35.3

- 32 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder *Criminal Procedure Rules* Llundain, Y Llyfrfa, rheol 33.2
- 33 *Act of Adjournal (Criminal Procedure Rules) 1996*
- 34 *Criminal Justice (Evidence) (Northern Ireland) Order 2004*
- 35 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder *Family Procedure Rules* Llundain, Y Llyfrfa, rheol 25.3
- 36 *Children's Hearings (Scotland) Rules 1996*
- 37 Gwir Anrhydeddus Ustus Wall (2007) *A handbook for expert witnesses in Children Act cases* Bryste, Jordans, 2il rifyn
- 38 *Deddf Diwygio Cyfraith Teulu 1969*
- 39 *Age of Majority Act (Northern Ireland) 1969*
- 40 *Age of Legal Capacity (Scotland) Act 1991*
- 41 *Adults with Incapacity (Scotland) Act 2000*
- 42 *Deddf Galluedd Meddyliol 2005*
- 43 Gillick v West Norfolk and Wisbech AHA [1985] UKHL 7
www.bailii.org/uk/cases/UKHL/1985/7.html
- 44 Asiantaeth Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig (2008) *UNHCR guidelines on determining the best interests of the child* Geneva, Asiantaeth Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig

E-bost: gmc@gmc-uk.org

Gwefan: www.gmc-uk.org

Ffôn: **0161 923 6602**

Cyngor Meddygol Cyffredinol, 3 Hardman Street, Manchester M3 3AW

Ffôn testun: **deialwch y rhifau cyntaf 18001** yna **0161 923 6602** er mwyn defnyddio'r gwasanaeth Trosglwyddo Testun

Ymunwch â'r sgwrs

 [@gmcuk](https://twitter.com/gmcuk)

 facebook.com/gmcuk

 linkd.in/gmcuk

 youtube.com/gmcuktv

I ofyn am y cyhoeddiad hwn mewn iaith neu ffurf arall, ffoniwch ni ar **0161 923 6602**, neu anfonwch e-bost atom, at publications@gmc-uk.org.

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2012

© 2012 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei bod yn cael ei hatgynhyrchu'n gywir, ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint CMC dros y deunydd a nodi teitl y ddogfen.

ISBN: 978-0-901458-64-3

Mae CMC yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278)
a'r Alban (SC037750)

Cod: GMC/PCYP-W/1115

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol